



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Gwasanaethau Gofal Sylfaenol – **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 828A2018-19



Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [info.officer@audit.wales](mailto:info.officer@audit.wales).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith hwn oedd Philip Jones.

# Cynnwys

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir ar gyfer gofal sylfaenol ac mae gwneud cynnydd graddol wrth weithredu elfennau allweddol y weledigaeth genedlaethol. Fodd bynnag, mae perfformiad yn gymysg a cheir diffyg eglurdeb ynghylch buddsoddiad cyffredinol y Bwrdd Iechyd mewn gofal sylfaenol.

## Adroddiad cryno

Cefndir	4
Prif ganfyddiadau	7
Argymhellion	8

## Adroddiad manwl

**Cynllunio strategol:** Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith cynllunio eglur ar gyfer gofal sylfaenol ac mae'n cryfhau ei drefniadau ymgysylltu a chefnogi gyda chlystyrau gofal sylfaenol a rhwydweithiau meddygon teulu 10

**Buddsoddiad:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro gwariant clystyrau yn effeithiol er nad yw'n gallu meintoli faint o adnoddau y mae wedi'u hailgyfeirio i ofal sylfaenol ac mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'n gywir y buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol 18

**Gweithlu:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cysylltu'n rheolaidd â phractisau i fonitro cynaliadwyedd, fodd bynnag mae bylchau yn y data yn llesteirio'r gallu i gynllunio'r gweithlu a cheir rhwystrau i ddatblygiad pellach timau amlddisgyblaethol 25

**Goruchwyliaeth:** Mae lle i gynyddu'r pwyslais ar ofal sylfaenol wrth fonitro perfformiad ac ym musnes y Bwrdd 30

**Perfformiad:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd graddol wrth gyflawni ei gynlluniau ond mae perfformiad gofal sylfaenol yn gymysg ac mae nifer o heriau anodd yn parha 35

## Atodiadau


Atodiad 1: dulliau	45
Atodiad 2: ymateb y rheolwyr	46

# Adroddiad cryno

## Cefndir


- 1 Y diffiniad o ofal sylfaenol yn y [cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol](#)<sup>1</sup> yw: 'Mae a wnelo gofal sylfaenol â'r gwasanaethau hynny sy'n darparu'r pwynt gofal cyntaf, ddydd neu nos, ar gyfer mwy na 90% o gysylltiad pobl â'r GIG yng Nghymru. Mae ymarfer cyffredinol yn un o elfennau craidd gofal sylfaenol: ond nid dyma'r unig elfen – mae gofal sylfaenol yn cwmpasu llawer mwy o wasanaethau iechyd, gan gynnwys fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg. Hefyd – yn bwysig – mae'n ymwneud â chydgyssylltu mynediad i bobl at yr amrywiaeth eang o wasanaethau yn y gymuned leol er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion iechyd a lles.'
- 2 Mae [Arddangosyn 1](#) yn dangos y swyddogaeth bwysig sydd gan ofal sylfaenol yng Nghymru.

### Arddangosyn 1: Pam mae gofal sylfaenol yn bwysig yng Nghymru?




#### Pwynt cyswilt cyntaf

Gofal sylfaenol yw'r man galw cyntaf i'r rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd.




#### Gwariant ar ofal sylfaenol

Yn 2016-17, gwariodd y GIG yng Nghymru £1.39 biliwn ar ofal sylfaenol, sydd oddeutu un rhan o bump o gyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru.



#### Atal ac ymyrryd yn gynnar

Mae gofal sylfaenol hefyd yn bwysig gan ei fod yn canolbwyntio ar hyrwyddo lles, ymyrraeth gynnar ac atal pobl rhag mynd yn waeth.



#### Cydgysylltu gofal

Mae gan ofal sylfaenol swyddogaeth bwysig yn cydgysylltu gwahanol fathau o ofal. Gofal sylfaenol yw'r porth i nifer fawr o wasanaethau eraill.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018, Chwefror 2015.

Sylwer: Nid yw byrddau iechyd yn categoreiddio gwariant gofal sylfaenol mewn modd cyson. Felly, mae'n debygol nad yw'r £1.39 biliwn yng nghyfrifon y GIG yn cynrychioli cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol.

- 3 Mae Cymru wedi bod â chynlluniau ers blyneddau lawer sy'n pwysleisio pwysigrwydd gofal sylfaenol. Nod y cynlluniau yw cyflawni cydbwysedd yn y system ofal trwy symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol. Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ceisio datblygu 'model cymdeithasol' sy'n hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol, yn hytrach na chadw at absenoldeb salwch yn unig. Yr egwyddorion craidd yn y cynllun yw: cynllunio gofal yn lleol; gwella mynediad ac ansawdd; mynediad teg; gweithlu lleol medrus; ac arweinyddiaeth gadarn.
- 4 Yn y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a fframwaith cynllunio GIG Cymru, disgwylir i fyrddau iechyd nodi cynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol yn rhan o'u cynllun tymor canolig integredig. Dylai pob cynllun egluro sut y bydd y bwrdd iechyd yn datblygu capasiti a gallu gwasanaethau gofal sylfaenol.
- 5 Er mwyn cefnogi gweithrediad y cynllun cenedlaethol, cyhoeddodd GIG Cymru gynllun gweithlu<sup>2</sup>. Disgwylir i fyrddau iechyd rhoi ar waith gamau i sicrhau, rheoli a chefnogi gweithlu gofal sylfaenol cynaliadwy wedi'i lywio gan anghenion y boblogaeth leol a gan egwyddorion gofal iechyd doeth.
- 6 [Clystyrau gofal sylfaenol](#) yw'r prif ddull o gynllunio gwasanaethau ar lefel gymunedol ac fe'u sefydlwyd yn gyntaf yn 2009<sup>3</sup>. Clystyrau yw grwpiau o bractisau meddygon teulu cyfagos, gwasanaethau gofal sylfaenol eraill a sefydliadau partner, fel y gwasanaeth ambiwlans, cynghorau a'r trydydd sector. Ceir 64 o glystyrau (a elwir hefyd yn rhwydweithiau gofal cymdogaeth) yng Nghymru. Eu swyddogaeth yw cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer eu poblogaethau lleol. Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd flaenoriaethu datblygiad cyflym y clystyrau yn eu hardal.
- 7 Ar ôl dechrau trwy ddatblygu clystyrau gofal sylfaenol, nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wahaniaeth clir rhwng tri chlwstwr gofal sylfaenol, i gynllunio gwasanaethau iechyd a llesiant, a thri rhwydwaith meddygon teulu, i ddarparu atebion i'r heriau cynllunio a nodir. Nod hyn oedd gwahanu dyletswyddau yn well a lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau a phroblemau llywodraethu.
- 8 Er mwyn cefnogi'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol ac annog arloesi, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gronfa gofal sylfaenol genedlaethol yn 2015-16. Ac yn 2016-17, roedd cyfanswm £41 miliwn yn y gronfa. Rhoddwyd £10 miliwn i ddatblygu'r clwstwr a rhoddwyd £3.8 miliwn i fyrddau iechyd ar gyfer prosiectau

<sup>2</sup> GIG Cymru, [Gweithlu Gofal Sylfaenol Wedi'i Gynllunio i Gymru: Dull a chymau datblygu i'w cymryd i gefnogi'r cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol yng Nghymru hyd at 2018](#), Gorffennaf 2015.

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, [Pennu'r Cyfeiriad: Rhaglen Gyflawni Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cynradd a Chymunedol](#), 2009.

pennu cyfeiriad ac ysgogi arloesi, sy'n ceisio profi elfennau o'r cynllun gofal sylfaenol. Mae'r prosiectau a ariannwyd yn y modd hwn wedi creu ffyrdd newydd o weithio sydd wedi'u casglu ym Model Gofal Sylfaenol Cymru<sup>4</sup>.

- 9 Ers cyhoeddi'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn 2014, bu nifer o ddatblygiadau. Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cynulliad Cenedlaethol Cymru [adroddiad](#) yn dilyn ei ymchwiliad i glystyrau<sup>5</sup>. Nododd yr adroddiad rai enghreifftiau nodedig o gynnydd, ond daw i'r casgliad fod angen newid mawr pwysig er mwyn i glystyrau gael effaith sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi'r dull clystyrau trwy ei rhaglen lywodraethu<sup>6</sup>.
- 10 Fodd bynnag, wrth i fyrdau iechyd gyflwyno ffyrdd newydd o weithio ym maes gofal sylfaenol, bu anawsterau wrth recriwtio a chadw meddygon teulu a gweithwyr proffesiynol eraill. Er y bu llwyddiant yn ddiweddar wrth recriwtio hyfforddeion meddyg teulu<sup>7</sup>, mewn llawer o ardaloedd mae mwy o bartneriaid meddygon teulu yn ymddeol a cheir anawsterau arbennig wrth recriwtio mewn ardaloedd gwledig.
- 11 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru<sup>8</sup> trwy gyflwyno cronfa drawsnewid gwerth £100 miliwn. Caiff ei defnyddio i wella iechyd y boblogaeth, ysgogi integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal, datblygu gofal sylfaenol, darparu gofal yn nes at gartrefi, a thrawsnewid gwasanaethau ysbyty.
- 12 Mae'n amserol i'r Archwilydd Cyffredinol adolygu gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru. Rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad cenedlaethol ynghylch gofal sylfaenol eleni. Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddwyd [Darlun o ofal cymdeithasol yng Nghymru](#). Mae hyn yn darparu cipolwg ffeithiol o ofal sylfaenol yng Nghymru ac yn cynnwys gwybodaeth gefndirol nad yw wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn. Ac ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd [Gwasanaethau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau](#).
- 13 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau gwaith ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) a wnaed rhwng mis Mawrth a mis Mai 2018. Ystyriwyd a yw'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i gyflawni'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a nodir yn y cynllun cenedlaethol. Mae [Atodiad 1](#) yn dangos ein dulliau. Canolbwyntiodd y gwaith yn benodol ar:

<sup>4</sup> <http://www.gofalsylfaenolun.cymru.nhs.uk/ysgogi-arloesi>

<sup>5</sup> Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymchwiliad i Ofal Sylfaenol: Clystyrau, Hydref 2017.

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol, Medi 2017.

<sup>7</sup> Dywedodd Llywodraeth Cymru fod 91% o leoedd hyfforddi i feddygon teulu wedi'u llenwi yng Nghymru yn 2017: 16 Hydref 2017. <https://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2017/gprecruitnew/?skip=1&lang=cy>

<sup>8</sup> Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru, Adroddiad Terfynol, Ionawr 2018.

- **Cynllunio strategol:** A yw'r Bwrdd lechyd yn ysgogi gweithrediad y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol mewn modd effeithiol ar lefel leol?
- **Buddsoddiad:** A yw'r Bwrdd lechyd yn rheoli ei gyllid i gefnogi trawsnewidiad gofal sylfaenol?
- **Gweithlu:** A yw'r Bwrdd lechyd mewn sefyllfa dda i gyflawni agweddau allweddol ar y cynllun cenedlaethol ar gyfer gweithlu gofal sylfaenol?
- **Goruchwyliaeth ac arweiniad:** A oes gan y Bwrdd lechyd drefniadau goruchwyllo ac arwain effeithiol sy'n cefnogi trawsnewidiad gofal sylfaenol?
- **Perfformiad a monitro:** A yw'r Bwrdd lechyd yn monitro'i berfformiad a'i gynnydd yn effeithiol ac yn gweithredu ei gynllun gofal sylfaenol?

## Prif ganfyddiadau

- 14 Y casgliad cyffredinol yw **bod gan y Bwrdd lechyd gynlluniau clir ar gyfer gofal sylfaenol ac mae gwneud cynnydd graddol wrth weithredu elfennau allweddol y weledigaeth genedlaethol. Fodd bynnag, mae perfformiad yn gymysg a cheir diffyg eglurdeb ynghylch buddsoddiad cyffredinol y Bwrdd lechyd mewn gofal sylfaenol.** Mae [Arddangosyn 2](#) yn nodi ein canfyddiadau allweddol yn fanylach.

### Arddangosyn 2: ein prif ganfyddiadau

Tabl sy'n rhoi manylion ein prif ganfyddiadau.

Ein prif ganfyddiadau
<p><b>Cynllunio strategol:</b> Mae gan y Bwrdd lechyd fframwaith cynllunio eglur ar gyfer gofal sylfaenol ac mae'n cryfhau ei drefniadau ymgysylltu a chefnogi gyda chlystyrau gofal sylfaenol a rhwydweithiau meddygon teulu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cynllun gofal sylfaenol y Bwrdd lechyd yn cyd-fynd ag agweddau allweddol y cynllun cenedlaethol ac mae trefniadau ar waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid.</li> <li>• Mae gan bob clwstwr a rhwydwaith gynllunio sy'n cyfrannu at y cynllun gofal sylfaenol ac mae'r Bwrdd lechyd yn cryfhau ei drefniadau ymgysylltu a chefnogi ar eu cyfer.</li> </ul>
<p><b>Buddsoddiad:</b> Mae'r Bwrdd lechyd yn monitro gwariant clystyrau yn effeithiol er nad yw'n gallu meintioli faint o adnoddau y mae wedi'u hailgyfeirio i ofal sylfaenol ac mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'n gywir y buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'n fanwl gywir y buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol.</li> <li>• Nid oes gan y Bwrdd lechyd dargedau ar gyfer symud adnoddau i ofal sylfaenol ac nid yw wedi gallu meintioli faint o adnoddau y mae wedi'u symud.</li> <li>• Mae'r Adran Gofal Sylfaenol yn monitro gwariant clystyrau a rhwydweithiau meddygon teulu ond ceir pryder mawr ynghylch cynaliadwyedd y cyllid ar gyfer modelau newydd o ddarparu gwasanaethau.</li> </ul>

### Ein prif ganfyddiadau

- Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio gyda'i bartneriaid er mwyn datblygu strategaeth fuddsoddi integredig ar gyfer yr ystad gofal sylfaenol, er nad yw'n buddsoddi'n glir mewn datblygiadau TGCh.

### **Gweithlu:** Mae'r Bwrdd lechyd yn cysylltu'n rheolaidd â phractisau i fonitro cynaliadwyedd, fodd bynnag mae bylchau yn y data yn llesteirio'r gallu i gynllunio'r gweithlu a cheir rhwystrau i ddatblygiad pellach timau amlddisgyblaethol

- Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod bylchau mewn data staffio yn llesteirio ei ymdrechion i gynllunio'r gweithlu y bydd ei angen yn y dyfodol.
- Mae gan y Bwrdd lechyd gysylltiad rheolaidd â phractisau i fonitro eu cynaliadwyedd ac nid oes unrhyw bractisau a reolir ar hyn o bryd.
- Mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau pwysig i weithredu timau ambroffesiynol ond ceir rhwystrau i gynydd pellach, gan gynnwys diffyg staff wedi'u hyfforddi a diffyg capasiti i reoli'r aelodau staff hyn.

### **Goruchwyliaeth:** Mae lle i gynyddu'r pwyslais ar ofal sylfaenol wrth fonitro perfformiad ac ym musnes y Bwrdd

- Mae arweinwyr wedi ymrwmo i drawsnewid gofal sylfaenol ond mae goruchwyliaeth wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar wasanaethau y tu allan i oriau yn hytrach nag ar ofal sylfaenol ehangach a datblygu clystyrau.
- Ceir pwyslais prin ar ofal sylfaenol ar ddangosfwrdd perfformiad y Bwrdd lechyd ac ym musnes y Bwrdd yn gyffredinol.
- Meddygon teulu sy'n arwain y rhan fwyaf o'r clystyrau a'r rhwydweithiau a cheir tystiolaeth gymysg ynghylch y cymorth a roddir i glystyrau gan y Bwrdd lechyd.

### **Perfformiad:** Mae'r Bwrdd lechyd yn gwneud cynnydd graddol wrth gyflawni ei gynlluniau ond mae perfformiad gofal sylfaenol yn gymysg ac mae nifer o heriau anodd yn parhau

- Mae perfformiad gofal sylfaenol y Bwrdd lechyd yn gymysg o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn nodi cynnydd graddol wrth gyflawni ei gynlluniau gofal sylfaenol a chymunedol ond mae'n cydnabod bod nifer o heriau anodd yn parhau.

## Argymhellion

- 15 O ganlyniad i'r gwaith hwn rydym wedi gwneud nifer o argymhellion a nodir yn [Arddangosyn 3](#).

### Arddangosyn 3: argymhellion

Tabl yn amlinellu ein hargymhellion i'r Bwrdd lechyd.

#### Argymhellion

##### Clystyrau gofal sylfaenol

- A1 Canfuwyd amrywio o ran aeddfedrwydd clystyrau gofal sylfaenol, a lle i wella arweinyddiaeth a chymorth i glystyrau. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- a. Adolygu aeddfedrwydd cymharol clystyrau, i ddatblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gymorth ar gyfer clystyrau lle bo angen;



## Argymhellion

- b. Sicrhau bod arweinwyr yr holl glystyrau yn mynd ar y cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus.

### Buddsoddi mewn gofal sylfaenol

- A2 Er bod y Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen iddo symud adnoddau o sefydliadau eilaidd i rai cynradd a chymunedol, ni all ddangos bod y symud hwn yn digwydd. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- a. Gyfrifo llinell sylfaen ar gyfer ei buddsoddiad a'i ddefnydd adnoddau presennol mewn gofal sylfaenol a chymunedol;
  - b. Adolygu ac adrodd, o leiaf unwaith y flwyddyn, ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol, i asesu cynnydd ers y llinell sylfaenol a monitro i ba raddau mae'n llwyddo symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol.

### Goruchwylio gofal sylfaenol

- A3 Canfuwyd bod lle i wella proffil gofal sylfaenol yn y Bwrdd lechyd, yn arbennig ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Felly dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer codi proffil gofal sylfaenol yn y Bwrdd lechyd. Gallai camau gweithredu gynnwys sicrhau bod gofal sylfaenol yn eitem sefydlog ar agendâu'r Bwrdd.
- A4 Canfuwyd bod lle hefyd i wella sut y caiff perfformiad gofal sylfaenol ei fonitro a'i adrodd ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- a. Adolygu cynnwys adroddiadau perfformiad y Bwrdd a'r pwyllgorau i sicrhau y rhoddir digon o sylw i ofal sylfaenol;
  - b. Cynyddu amllder yr adroddiadau perfformiad i'r Bwrdd a'r pwyllgorau am ofal sylfaenol;
  - c. Sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu digon o sylw ar gynnydd a chyflawni cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd lechyd, ac i ba raddau y mae'r cynlluniau hynny yn arwain at well profiadau a chanlyniadau ar gyfer cleifion.

### Gweithlu gofal sylfaenol

- A5 Mae cynllun gweithlu'r Bwrdd lechyd wedi'i gyfyngu gan brinder data ynghylch nifer a sgiliau'r staff sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu a rhoi ar waith gynllun gweithredu i sicrhau bod ganddo wybodaeth reolaidd, gynhwysfawr a safonol am nifer a sgiliau staff o bob proffesiwn sy'n gweithio mewn sefydliadau gofal sylfaenol.

# Adroddiad manwl

**Cynllunio strategol:** Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith cynllunio eglur ar gyfer gofal sylfaenol ac mae'n cryfhau ei drefniadau ymgysylltu a chefnogi gyda chlystyrau gofal sylfaenol a rhwydweithiau meddygon teulu

Mae cynllun gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd ag agweddau allweddol y cynllun cenedlaethol ac mae trefniadau ar waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun gofal sylfaenol yn rhan o weledigaeth ehangach ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'n sefydlu Rhaglen Gofal Sylfaenol i arwain gwelliant pellach y gwasanaethau hyn

- 16 Mae'r Bwrdd Iechyd yn wahanol i fyrddau iechyd eraill gan ei fod yn gomisiynydd yn fwy na dim, sy'n prynu gwasanaethau gan amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys contractwyr gofal sylfaenol, cartrefi gofal, gwasanaethau ambiwlans ac ysbytai. Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol, gan gynnwys rhwydwaith o ysbytai cymuned, canolfan iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau cymuned fel nyrsio ardal, bydwreigiaeth ac ymweliadau iechyd, therapïau, iechyd meddwl a gwasanaethau i bobl ag anabledd dysgu.
- 17 Yn gynyddol, mae gwasanaethau ym Mhowys wedi'u darparu ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Powys. Arweiniodd y Cynllun Powys yn Un y ffordd ar gyfer cydgynllunio rhwng cyrff rhanddeiliaid allweddol ym Mwrdd Gwasanaethau Lleol Powys. Wedi hynny, Powys oedd y sir gyntaf yng Nghymru i ddatblygu cynllun iechyd a gofal cymdeithasol hirdymor integredig (deng mlynedd) i bennu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer dyfodol y gwasanaethau hyd at 2027. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u trosi yn gynlluniau tymor byr a chanolig fel y Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- 18 Nodwyd 12 amcan strategol yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2015-16 sy'n effeithio ar ofal sylfaenol. Yr amcan mwyaf penodol oedd Amcan Strategol 3 – Cynyddu capasiti a chadernid gofal sylfaenol a chymunedol i hybu hunanofal a gofal yn nes at gartrefi. Nododd weledigaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol craidd trwy drefniadau contractwr annibynnol, yn ymdrin ag ymarfer cyffredinol ond hefyd gwell integreiddio rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd.
- 19 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2018-19 yn cynnwys gweledigaeth wedi'i diweddaru a mwy aeddfed ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol. Mae'n cynnwys blaenoriaethau wedi'u diweddaru ar gyfer darpariaeth gwasanaethau meddygol cyffredinol, darpariaeth gwasanaethau deintyddol cyffredinol, gofal llygaid a rheoli meddyginiaethau. Mae'r cynllun tymor canolig integredig hefyd yn disgrifio dull

cynllunio y Bwrdd Iechyd ar ffurf proses â thair elfen, gan gynnwys datblygu cynlluniau clwstwr gofal sylfaenol 'o'r gwaelod i fyny' gan glystyrau gofal sylfaenol unigol; cynlluniau cyfarwyddiaethau a thrawstorri, cynlluniau sefydliadol. Bwriad cynlluniau cyfarwyddiaeth y Bwrdd Iechyd, sydd islaw'r cynllun tymor canolig integredig, yw sicrhau bod cerrig milltir manwl a mesurau ar waith i fonitro perfformiad y cynlluniau a chyflawniad mesurau cenedlaethol a lleol.

- 20 Mae crynodeb o'r cynllun gofal sylfaenol o 2018-19 ymlaen wedi'i gynnwys fel atodiad yn y cynllun tymor canolig integredig presennol. Mae'n nodi cyfres o flaenoriaethau wedi'u ffurfio gan ysgogwyr cenedlaethol a lleol. Maent yn cynnwys parhau i ddatblygu gofal unigol, hybu byw yn iach, symud gofal lles i ffwrdd o feddyginiaeth, ac archwilio'r defnydd o Gontractwyr Cymunedol<sup>9</sup> yn rhan o'r Tîm Adnoddau Cymunedol i wella mynediad at adnoddau trwy ragnodi cymdeithasol. Mae cyflwyno trefniadau brysennu clinigol yn helpu i sicrhau mynediad prydlon ac mae'n gam allweddol yng nghrynodeb y cynllun. Mae Timau Adnoddau Cymunedol yn cael eu gwella i helpu i wella gofal ataliol, rhagweithiol a chydgyssylltiedig.
- 21 Mae crynodeb y cynllun hefyd yn cyfeirio at ddatblygu Fframwaith Datblygu Clystyrau Gofal Sylfaenol i sicrhau bod nodau iechyd a llesiant wedi'u nodi a'u cyflawni ym mhob cymuned. Bydd angen cytundeb ar y Fframwaith rhwng y Bwrdd Iechyd a'r clystyrau ynghylch segmentu'r boblogaeth; y canlyniadau Iechyd a Llesiant a ddymunir ar gyfer pob segment; a datblygu Cynlluniau Iechyd a Llesiant ar gyfer pob Clwstwr Gofal Sylfaenol.
- 22 Er mwyn helpu i gyflawni'r amcan hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwahaniaethu'n glir rhwng:
- tri chlwstwr gofal sylfaenol, yn unol â pholisi cenedlaethol i gynllunio gwasanaethau iechyd a llesiant; a
  - thri rhwydwaith meddygon teulu i ddarparu atebion i'r heriau cynllunio a nodir.
- 23 Nod hyn yw gwahanu dyletswyddau yn well a lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau a phroblemau llywodraethu.

### Mae cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd ag agweddau allweddol ar y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol

- 24 Adolygwyd cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol i asesu a oeddent yn cynnwys elfennau allweddol sy'n sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a Model Gofal Sylfaenol Cymru. Er na

<sup>9</sup> Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cymunedol yn helpu pobl ym Mhowys (18+ oed) a'u teuluoedd neu eu gofalwyr, i gael gafael ar wasanaethau a gweithgareddau cymunedol a fydd yn eu helpu i fyw bywydau annibynnol ac sy'n helpu i atal eu hamgylchiadau rhag gwaethgu hyd at bwynt pan allai fod angen lefel uwch o wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. Gall y gwasanaeth hefyd helpu i gefnogi pobl pan fyddant yn dychwelyd adref o'r ysbyty trwy helpu gwasanaethau eraill y Trydydd Sector, fel y Groes Goch, i nodi gwasanaethau lleol ychwanegol y gallai fod eu hangen.

chyfeirir yn benodol at y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yng nghynllun tymor canolig integredig 2018-19 y Bwrdd Iechyd, ceir cyfeiriadau at bennu cyfeiriad ac ysgogi Arloesi, yn ogystal ag at ddull trawsnewidiol o gomisiynu. Ceir sôn am fodel sy'n datblygu, er nad yw'n ymwneud yn benodol â Model Gofal Sylfaenol Cymru.

- 25 Mae nifer o feysydd yng nghynllun tymor canolig integredig y Bwrdd Iechyd yn amlygu cryfderau arbennig:
- llywio cynllunio gan asesiadau o anghenion y boblogaeth, a'r bwriad i gynnal asesiadau anghenion lleol ar gyfer cyflyrau arbennig, i fapio gwaith presennol a nodi bylchau, e.e. ar gyfer canser, diabetes ac iechyd meddwl;
  - cydnabod yr angen i gryfhau trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu, a chynyddu'r defnydd o gyd-gynhyrchu ag asiantaethau eraill a'r cyhoedd ar gyfer materion penodol, e.e. iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau;
  - cydnabod lle 111 ym model gofal cyffredinol Powys a chynllun i gyflwyno proses Pennu Cyfeiriad 111 ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn 2018-19;
  - mae'r cynllun yn cyfeirio at nifer o strategaethau presennol sydd â rhywfaint o berthnasedd i ofal sylfaenol a chymunedol;
  - yr angen i ddatblygu ac adeiladu ar fentrau rhagnodi cymdeithasol presennol; a
  - chyfeirio at wella trefniadau cyfeirio cleifion i wasanaethau.
- 26 Mae angen rhagor o waith datblygu ar feysydd eraill cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd:
- diffyg eglurdeb ynghylch sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario'i ddyraniad o Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol Llywodraeth Cymru; a
  - diffyg eglurdeb ynghylch sut y caiff gwelliannau gofal sylfaenol eu mesur a'u hadrodd, gan gynnwys tracio'r trefniadau symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol.
- 27 Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lunio rhestr flaenoriaeth o wasanaethau gofal eilaidd y maent yn bwriadu eu cyflawni mewn lleoliadau sylfaenol neu gymunedol yn y dyfodol. Mae gan y Bwrdd Iechyd Gynlluniau Gwellu Gofal wedi'i Gynllunio a Heb ei Drefnu ar y cyd â Chyngor Sir Powys. Mae'r rhain wedi'u seilio ar gadw pobl yn byw yn iach ac yn annibynnol yn eu cartref gyhyd â phosibl, ac os oes angen gofal aciwt arnynt, i'w cael yn ôl yn y cartref cyn gynted ag y bo'n ddiogel. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithredu dwy theatr llawdriniaeth mewn Ysbytai Cymunedol sy'n canolbwyntio ar lawdriniaeth a gwasanaethau cleifion allanol. Mae pob dim yn canolbwyntio ar ddarparu gofal yn nes at gartrefi. Yn rhan o'r cynllun, bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu grwpiau llywio ar gyfer offthalmoleg, orthopedeg, ENT ac wroleg. Bydd pob un yn cynnwys ymarferwyr gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd, yn ogystal â chleifion a defnyddwyr gwasanaethau.

- 28 Mae'r crynodeb o gynllun gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn nodi sawl ffordd y mae'n dymuno symud gofal i'r gymuned, gan gynnwys:
- adolygu llwybrau gofal i sicrhau y gellir darparu mwy o ofal yn nes at gartrefi, gan gynnwys nodi'r pum cyfle mwyaf i gyflawni gofal ar y cyd;
  - datblygu gwasanaethau diagnostig ac asesiadau lleol i sicrhau y gellir darparu gofal yn lleol;
  - datblygu Gwasanaethau Genau a'r Wyneb a Deintyddiaeth Adferol ym Mhowys i wella mynediad at wasanaethau a darparu mwy o ofal yn nes at gartrefi;
  - adolygu'r llwybr glawcoma i wella mynediad at wasanaethau a darparu mwy o ofal yn nes at gartrefi; a
  - pharhau i ddarparu gwasanaethau dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint mewn gofal sylfaenol i wella mynediad at wasanaethau a darparu mwy o ofal yn nes at gartrefi.
- 29 Mae hefyd wedi datblygu Rhaglen Buddsoddi yn Eich Iechyd ac yn darparu cymorth i wasanaethau gofal cartref yn y gymuned. Ceir defnydd cynyddol o gyfleusterau cam-i-fyny mewn Ysbytai Cymunedol ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhannu swyddogaethau Rhwydweithiau Meddygon Teulu a Chlystyrau Gofal Sylfaenol. Ceir defnydd cynyddol o gytundebau Gwasanaeth Gwell i gefnogi darpariaeth gwasanaethau lleol.

### Gall y Bwrdd Iechyd ddarparu enghreifftiau o ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu ei gynlluniau

- 30 Mae'n bwysig bod byrddau iechyd yn cydweithredu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu eu cynlluniau. Roedd Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl y Bwrdd Iechyd a'i gyfarwyddiaethau corfforaethol ar gyfer strategaeth a llywodraethu yn rhan lawn o gynllunio hirdymor yr iechyd a'r gofal cymdeithasol yn y sir, a arweiniodd at y Cynllun Powys yn Un (gweler [paragraff 17](#)).
- 31 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu ac yn cydweithredu â rhanddeiliaid lleol allweddol trwy grŵp cydreoli, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd yn y fforymau hyn ac mae adborth wedi'i gynnwys yng nghynlluniau'r Bwrdd Iechyd fel y bo'n briodol. Ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd â Chyngor Powys i lunio'r fframwaith cynllunio a arweiniodd at gyhoeddi Strategaeth Iechyd a Gofal Powys, a luniwyd gan Dîm y Cydraglen Strategaeth Iechyd a Gofal. Roedd y strategaeth wedi'i seilio ar ymgysylltiad â thros 1,000 o aelodau'r cyhoedd, staff a rhanddeiliaid eraill. Roedd cam cyntaf y broses yn cynnwys 21 o weithdai bach, digwyddiad i staff iechyd a gofal, a digwyddiad llunio gweledigaeth i'r cyhoedd, staff a rhanddeiliaid. Lluniwyd strategaeth ddrafft a'i thywys trwy ail gam o ddigwyddiadau ymgysylltu a gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn diwygio'r strategaeth yn barod i'w chymeradwyo a'i lansio.

- 32 Ceir Bwrdd Cydbartneriaeth ffurfiol sy'n datblygu Canolfan Wledig Ranbarthol Gogledd Powys ar hyn o bryd. Mae hwn ar wahân i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Partneriaeth. Y bwriad yw y bydd y bwrdd hwn yn gorff allweddol wrth gydgyllunio, er ei bod yn debygol y daw yn rhan o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol.
- 33 Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu diweddariadau anffurfiol rheolaidd i'r Cyngor Iechyd Cymunedol, yn ogystal â diweddariadau ffurfiol yng nghyfarfodydd y cyngor. Er bod gofal sylfaenol yn uchel ar agenda'r Cyngor Iechyd Cymunedol, nid oedd yn rhan ffurfiol o ddatblygu cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd. Ceir perthynas waith dda iawn rhwng y Cyngor Iechyd Cymunedol ac uwch aelodau staff y Bwrdd Iechyd. Mae'n bosibl y bydd blaenoriaethau wedi symud yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd y risgiau sylweddol yn sgil problemau o ran trefniadau meddygon teulu y tu allan i oriau a chyflwyniad rhai swyddogaethau dros dro. O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor Iechyd Cymunedol wedi canolbwyntio'n llai ar ofal sylfaenol na gwasanaethau y tu allan i oriau.
- 34 Ymgynghorir â chynrychiolydd y Pwyllgor Meddygol Lleol ar gynlluniau'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys prosesau cynllunio'r cynllun tymor canolig integredig. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Meddygol Lleol yn ei chael yn anodd darparu cynrychiolwyr i fynd i'r cyfarfodydd oherwydd ymrwymadau ymarfer cyffredinol a'r pellter teithio. Dywedodd cynrychiolydd y Pwyllgor Meddygol Lleol fod y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar ofal sylfaenol yn fwy na byrddau Iechyd eraill, oherwydd nad oes ganddo unrhyw ysbytai cyffredinol dosbarth. Ystyriodd fod dull y Pwyllgor o weithredu cyllid cynaliadwyedd yn rhagweithiol ac yn ddefnyddiol.

## Mae gan bob clwstwr a rhwydwaith gynllunio sy'n cyfrannu at y cynllun gofal sylfaenol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau ymgysylltu a chefnogi ar eu cyfer

- 35 Fel y nodwyd uchod (gweler [paragraff 22](#)), fod gan y Bwrdd Iechyd dri Chlwstwr Gofal Sylfaenol sy'n canolbwyntio ar gynllunio gweithgareddau ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol ym mhob ardal. Mae'r tri Rhwydwaith Meddygon Teulu yn canolbwyntio ar elfennau ymarferol cyflawni'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill mewn practisau lleol. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd y newid hwn oherwydd ei fod yn dymuno:
- cynnwys timau clinigol rheng flaen mewn cofnodi profiad cleifion er mwyn llywio'r broses sicrwydd comisiynu;
  - cyflawni'r potensial mwyaf posibl i wella systemau gofal a thargedu gweithgareddau i wella canlyniadau Iechyd y cyhoedd; a
  - datblygu asesiad cynhwysfawr o anghenion ar lefelau poblogaeth leol.
- 36 Mae gan bob clwstwr Fwrdd Clwstwr wedi'i gadeirio gan glinigydd gofal sylfaenol, sef Arweinydd y Clwstwr. Mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol a Phennaeth Gofal Sylfaenol yn ymgysylltu ag arweinwyr clystyrau ac mae ganddynt fynediad at amrywiaeth o swyddogaethau cymorth. Mae'r Bwrdd

Clwstwr yn tynnu ynghyd amrywiaeth o gynrychiolwyr cymunedol a darparwyr gwasanaethau lleol i gynllunio gwasanaethau ar gyfer eu poblogaeth leol. Nod hyn yw symud y pwyslais o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, i wasanaeth sydd wedi'i seilio ar iechyd yr unigolyn a'r boblogaeth.

- 37 Mae clystyrau, trwy gyflawni swyddogaeth ymgynghori ar gynllunio, yn defnyddio cyfuniad o asesiadau ffurfiol o anghenion iechyd, asesiadau perfformiad gwasanaethau, gwybodaeth gyllidebol a gwybodaeth leol i lunio cynllun clwstwr a gaiff ei ddiweddarau'n flynyddol, a gaiff ei gytuno gan Fwrdd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bydd angen parhau i gryfhau'r berthynas gydweithredol rhwng yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid i wneud hyn, er mwyn caniatáu am fynd i'r afael yn briodol â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd a rhai lleol.
- 38 Caiff y clystyrau eu cefnogi gan Dimau Rheoli Ardal y De a'r Gogledd i'w helpu i gynllunio, datblygu, gweithredu a monitro mentrau clystyrau. Y bwriad yw y bydd y cynlluniau hyn yn ffurfio sail i gyfraniad y Gyfarwyddiaeth at gynllun tymor canolig integredig tair blynedd y Bwrdd Iechyd.
- 39 Mae Rhwydweithiau Meddygon Teulu yn gweithredu fel dull cefnogi i ddatblygu gwaith a chydweithredu cryfach rhwng practisau ac fel dull o dreialu ffyrdd newydd o weithio i gefnogi cynaliadwyedd cynyddol. Eu nod yw datblygu swyddogaeth Rhwydwaith Cefnogi Gofal Sylfaenol, gan hwyluso dull cydweithredol o gyflawni cynaliadwyedd practisau meddygon teulu a materion darparu, a hwyluso gwaith cynyddol rhwng practisau trwy rannu adnoddau lle bo hynny'n briodol. Maent hefyd yn chwarae rhan mewn cryfhau trefniadau cynllunio parhad busnes ac ymateb i argyfwng, er mwyn cyfrannu at gynlluniau lleol ar gyfer gweithredu mewn argyfwng.
- 40 Mae'r rhwydweithiau yn llunio cynllun busnes tair blynedd gan nodi unrhyw wasanaethau y maent yn bwriadu eu datblygu mewn ymateb i'r anghenion a nodir gan Glystyrau Gofal Sylfaenol unigol yn eu cynlluniau clwstwr. Mae'r cynlluniau busnes hyn hefyd yn nodi cynigion ar gyfer modelau newydd o weithio y mae angen cyllid ysgogi ar eu cyfer trwy'r Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol. Mae'r rhwydweithiau hefyd yn cyfrannu at waith y clystyrau trwy Arweinydd y Rhwydwaith.
- 41 Gorwedd Rhwydweithiau Meddygon Teulu y tu allan i strwythur rheoli ffurfiol y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, ond maent yn helpu i lywio clystyrau ac fe'u cefnogir gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol a Phennaeth Gofal Sylfaenol.
- 42 Edrychwyd ar sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu cymorth i glystyrau a rhwydweithiau wrth ddatblygu asesiadau o anghenion lleol a chynlluniau clwstwr. Canfuwyd bod gan bob un gynllun wedi'i ffurfio a blaenoriaethau gweithredu wedi'u nodi, sy'n ceisio cyd-fynd â'r cynllun tymor canolig integredig. Fodd bynnag, canfu ein harolwg o arweinwyr clystyrau/rhwydweithiau fod barn gymysg o ran pa un a yw'r Bwrdd Iechyd yn darparu cymorth effeithiol i glystyrau. Er enghraifft, dywedwyd wrthym nad oeddent wedi cael digon o gymorth i ddatblygu asesiadau o

anghenion y boblogaeth. A chlywsom fod tuedd i gymorth y Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar lunio a chysoni cynlluniau a materion prosesau yn hytrach na chefnogi clystyrau i weithredu'r newid.

- 43 Canolbwyntiodd adroddiad archwilio mewnol ym mis Mai 2018 ar ymgysylltiad y Bwrdd Iechyd â darparwyr gofal sylfaenol. Dywedodd TG fod adborth cyson gan arweinydd clystyrau fod ymgysylltiad ystyrlon â gofal sylfaenol wedi gostwng i lefel isel yn ystod y 18 mis blaenorol. Nododd yr adroddiad fod angen cynyddu cysylltiadau â'r clystyrau gofal sylfaenol. Hefyd, dywedodd yr adroddiad fod angen mwy o gymorth ar glystyrau i aeddfedu eu cynlluniau eu hunain ac i sicrhau bod cysylltiad ar draws holl gynlluniau'r Bwrdd Iechyd, fel y cynllun tymor canolig integredig. Canfuwyd bod aeddfedwydd clystyrau yn amrywio ac argymhellodd y dylid gwneud gwaith datblygiadol â phwyslais a chynnal cyfarfodydd wedi hwyluso rhwng arweinydd clystyrau. Rhoddodd y Prif Weithredwr gyfres o gamau ar waith i sicrhau y gellid ymdrin ag agweddau amrywiol ar y sefyllfa yn gyflym, ac roedd y rhain ar waith ar adeg yr adolygiad hwn.
- 44 Mae **Arddangosyn 4** yn dangos ein canfyddiadau o'n harolwg o arweinydd clwstr, sy'n awgrymu unwaith eto bod clystyrau ym Mhowys ar wahanol gamau aeddfedwydd.

#### Arddangosyn 4: asesiad arweinydd clystyrau o lefel datblygiad eu sefydliad

Mae'r tabl yn dangos nifer y clystyrau ar y tair lefel o aeddfedwydd (gweler y nodyn)

	1 = Yn datblygu	2 = Yn sefydlog ac yn dechrau cyflawni	3 = Aeddfed
Abertawe Bro Morgannwg	1	4	2
Aneurin Bevan	1	6	0
Betsi Cadwaladr	2	5	1
Cwm Taf	0	5	2
Caerdydd a'r Fro	1	5	2
Hywel Dda	0	4	1
<b>Powys<sup>10</sup></b>	<b>1</b>	<b>1</b>	<b>1</b>
<b>Cymru</b>	<b>6</b>	<b>30</b>	<b>9</b>

<sup>10</sup> Ymatebion a gafwyd gan dau arweinydd Clwstr Gofal Sylfaenol ac un arweinydd Rhwydwaith Meddygon Teulu.



Nodyn:

1 = Yn datblygu: Ar gamau datblygu cynnar o hyd ac mae angen cymorth sylweddol; nid yw pob aelod o'r clwstwr wedi ymgysylltu'n llawn.

2 = Sefydlog ac yn dechrau cyflawni: Yn dechrau cyflawni rhai buddion, ond yn dal ar gamau cynnar; mae angen i gymorth barhau ac nid yw'r potensial llawn wedi'i wireddu eto.

3 = Aeddfed: Mae holl aelodau'r clwstwr wedi ymgysylltu'n llawn; yn cyflawni ar draws nifer o feysydd yn unol â chynllun y clwstwr.


Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o arweinwyr clystyrau, Ebrill 2018.

**Buddsoddiad:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro gwariant clystyrau yn effeithiol er nad yw'n gallu meintioli faint o adnoddau y mae wedi'u hailgyfeirio i ofal sylfaenol ac mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'n gywir y buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol

Mae'r cyfrifon yn awgrymu gostyngiad mewn termau real i'r buddsoddiad mewn gofal sylfaenol, ond mae fformat y cyfrifon yn ei gwneud yn anodd dweud hynny ag unrhyw sicrwydd

45 Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu arian i'r byrddau iechyd mewn amrywiaeth o gategoriâu gofal sylfaenol. Mae **Arddangosyn 5** wedi'i seilio ar ddata o gyfrifon blynyddol y Bwrdd Iechyd ac mae'n nodi'r gwariant hirdymor, cyffredinol, y Bwrdd Iechyd ar ofal sylfaenol. Mae'r cyfanswm yn cynnwys gwariant ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Fferyllol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Gwariant Gofal Iechyd Sylfaenol 'Arall'<sup>11</sup>.

**Arddangosyn 5: gwariant y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau gofal sylfaenol**



Ffynhonnell: Cyfrifon Blynyddol Byrddau Iechyd Lleol

<sup>11</sup> Heb gynnwys gwariant ar gyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn

Sylwer: Nid yw'r echel-y yn dechrau ar sero. Nid ydym wedi cynnwys gwariant ar gyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn oherwydd natur amrywiol y gwariant hwn, o ganlyniad i amrywio prisiau cyffuriau.

- 46 Mae **Arddangosyn 5** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi gwario £46.1 miliwn ar wasanaethau gofal sylfaenol, heb gynnwys cyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn 2016-17. Mae'r duedd yn dangos gwariant lled gyson o 2010-11 hyd 2014-15, ac wedyn cynnydd bach tan 2016-17. Fodd bynnag, ar ôl ystyried effaith chwyddiant, cafwyd gostyngiad o 0.5% mewn termau real yng ngwariant y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau gofal sylfaenol rhwng 2010-11 a 2016-17. Ledled Cymru canfuwyd problemau yn y dull y cofnodir gwariant ar ofal sylfaenol yn y cyfrifon. Ni chaiff gwariant ei gategoreiddio mewn modd cyson gan fyrddau Iechyd ac yn aml nid yw'r ffigurau a gofnodir yn y cyfrifon yn cynrychioli cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol.
- 47 Cymharwyd y cyllid gofal sylfaenol a ddyrannwyd i'r Bwrdd Iechyd gan Lywodraeth Cymru â'i wariant gwirioneddol ar ofal sylfaenol (2010-11 hyd 2016-17). Yn 2016-17, gwariodd y Bwrdd Iechyd £2.6 miliwn (8.5%) yn fwy na'i ddyraniad ar wasanaethau meddygol cyffredinol; £2.4 miliwn yn llai (50%) ar ei wasanaethau fferyllol; a £0.3 miliwn (3.4%) yn llai ar wasanaethau deintyddol cyffredinol. Eglurodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi buddsoddi adnoddau ychwanegol mewn Timau Adnoddau Cymunedol, a Wardiau Rhithwir yng ngogledd Powys, i leihau'r galw y gellir ei osgoi ar yr elfennau mwy aciwt o'r system. Dywedodd fod llwyddiant y dull hwn yn amlwg yn ei fetrigau gofal heb ei drefnu sy'n dangos cyfraddau is na byrddau Iechyd eraill o ran derbyniadau brys, presenoldeb mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, cludiant Ymddiriedolaeth y GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, derbyniadau sydd wedi'u cynnwys yn y mesurau 'Basged 8'<sup>12</sup>, hyd arhosiad cyfartalog mewn adran brys ac ati.
- 48 Yn ogystal â dyraniad y cyllid gofal sylfaenol a gaiff ei ddisgrifio ym **mharagraff 47**, cafodd y Bwrdd Iechyd £1.874 miliwn gan Lywodraeth Cymru trwy'r Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol yn 2016-17. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd £453,000 o'r cyllid hwn i'r clystyrau. Dyrannodd y gweddill i'r cynllun tymor canolig integredig a datblygu'r Gweithlu (£1.16 miliwn), Pennu Cyfeiriad (£172,000), gwasanaethau dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint (£79,000) ac Iechyd Galwedigaethol i feddygon teulu (£10,000).
- 49 Buddsoddodd y Bwrdd Iechyd mewn nifer o fentrau trwy ddefnyddio arian o gyllid gofal sylfaenol a chyllid pennu cyfeiriad, fel:

<sup>12</sup> Caiff mesurau basged o wyth eu defnyddio mewn cysylltiad â'r cyflyrau cronig canlynol, h.y. Alzheimer, Ffibriliad Atriaidd, Clefyd Cardiofasgwlaidd, Strôc, Diabetes, Cyhyrsgerbydol, Niwrolegol a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint.


- darparu gwasanaeth siop un stop amlddisgyblaethol ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint wedi'i leoli yn Ysbyty Brycheiniog, sy'n gwasanaethu rhan fwyaf o boblogaeth canol a de Powys;
- buddsoddi mewn Rhaglen Eich Iechyd Chi i hybu hunanreolaeth o gyflyrau hirdymor;
- cyflwyno Timau Adnoddau Cymunedol a Wardiau Rhithwir yng ngogledd Powys, sydd, ymysg pethau eraill, yn cynrychioli newid systematig yn y drefn o reoli llwybrau gofal heb ei drefnu rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd ym Mhowys; a
- gwasanaeth ateb galwadau yn ystod oriau gwaith gan feddygon teulu wedi'i arwain gan fenter gymdeithasol, a'r prosiect brysbennu nyrsys Red Kite ledled clwstwr de Powys.

## Nid oes gan y Bwrdd Iechyd dargedau ar gyfer symud adnoddau i ofal sylfaenol ac nid yw wedi gallu meintioli faint o adnoddau y mae wedi'u symud

- 50 Ers sawl blwyddyn, mae GIG Cymru wedi cynllunio i symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol, er mwyn gwrthdroi'r 'tan-ddatblygiad ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru'<sup>13</sup>. Fodd bynnag, mae materion fformat cyfrifon y GIG (gweler **paragraff 46**) yn ei gwneud yn anodd nodi a yw byrddau iechyd wedi sicrhau symudiadau o'r fath.
- 51 Mae **Arddangosyn 6** yn dangos gwariant y Bwrdd Iechyd ar ofal sylfaenol ar ffurf canran o gyfanswm ei wariant (Cost Gweithredu Net, 2010-11 hyd 2016-17). Nid yw'r ffigurau yn cynnwys gwariant ar gyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn. Mae'r arddangosyn yn dangos nad yw gwariant ym maes gofal sylfaenol yn gyson â chyfanswm y gwariant mewn byrddau iechyd, er gwaethaf blaenoriaethau cenedlaethol i symud tuag at ofal sylfaenol. Mae hyn yn wir yn y Bwrdd Iechyd, lle gwelir er bod gwariant ar ofal sylfaenol yn fwy na'r cyfartaledd ar ffurf canran o'r holl wariant o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, y bu gostyngiad cyffredinol yn y ffigur hwn yn ystod y cyfnod a ddangosir.

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, Gwella Iechyd yng Nghymru: Dyfodol Gofal Sylfaenol, Gorffennaf 2001.

Arddangosyn 6: gwariant y Bwrdd Iechyd ar ofal sylfaenol ar ffurf canran o gyfanswm ei wariant (Cost Gweithredu Net, 2010-11 hyd 2016-17)



Ffynhonnell: Cyfrifon Blyneddol Byrddau Iechyd Lleol.

Sylwer: Nid yw echel-y yn dechrau ar sero.

- 52 Gofynnwyd a yw'r byrddau iechyd yn cymryd camau penodol i gyflawni symudiad adnoddau tuag at ofal sylfaenol. Canfuwyd nad oedd yr un o'r byrddau iechyd wedi pennu targedau ar gyfer symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol.
- 53 Gofynnwyd hefyd wrth y byrddau iechyd a ydynt wedi meintioli cyfanswm yr adnoddau a symudwyd tuag at ofal sylfaenol ers dechrau'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn 2014. Canfuwyd nad oedd yr un o'r byrddau iechyd wedi cynnal y cyfrifiad hwn. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu unrhyw dystiolaeth ddiweddar o faint o weithgareddau gofal eilaidd sydd wedi'u symud i'r gymuned o ganlyniad i gynllunio a datblygiadau gwasanaeth.

## Mae'r Adran Gofal Sylfaenol yn monitro gwariant clystyrau a rhwydweithiau meddygon teulu ond ceir pryder mawr ynghylch cynaliadwyedd y cyllid ar gyfer modelau newydd o ddarparu gwasanaethau

- 54 Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn sôn am glystyrau fel ffordd o gyflawni ymreolaeth leol ar arweinyddiaeth, cydweithredu ac arloesi. Mae angen i fyrddau iechyd gael y cydbwysedd iawn rhwng rhoi ymreolaeth i glystyrau a goruchwyllo eu gwariant. Caiff gwariant rhwydweithiau meddygon teulu ei fonitro gan yr Adran Gofal Sylfaenol, sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl. Caiff holl gyllid y clystyrau ei ryddhau i'r clystyrau i'w wario ar flaenoriaethau lleol a chaiff ei fonitro gan yr Adran Gofal Sylfaenol.
- 55 Yn ein harolwg o arweinwyr clystyrau/rhwydweithiau, gofynnwyd iddynt ymateb i ddatganiadau bod eu clwstwr yn gallu gwario'r holl gyllid y byddai'n ei gael; ei fod yn gallu gwario'r cyllid y byddai'n ei gael yn gyflym pan fydd wedi penderfynu ar ei flaenoriaethau; bod ganddo ymreolaeth ariannol; a bod y Bwrdd Iechyd wedi monitro gwariant y clwstwr yn effeithiol. Ym mhob achos, roedd dau o'r tri ymatebydd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad.
- 56 Yn ein harolwg o arweinwyr clystyrau/rhwydweithiau, clywsom fod materion cyllid cynaliadwy bob amser yn amlwg mewn trafodaethau'r clystyrau. Ceir pryderon bod practisau yn elwa ar fodelau gweithio newydd ac yn eu hymgorffori yn eu gwaith dyddiol, ond bod risg y gallent ddod i ben gan nad oes cytundeb cyllid parhaus.
- 57 Mae clwstwr canol Powys wedi datblygu tîm bach o fferyllwyr yn Llanidloes i gynnal adolygiadau meddyginiaeth, adolygiadau cartrefi gofal, a defnyddio meddyginiaeth yn y modd mwyaf effeithiol posibl a chysoni'r gweinyddu. Mae arbedion wedi'u nodi a gweithgarwch ei gofnodi a'i ddadansoddi at ddibenion gwerthuso. Fodd bynnag, ceir tîm bach a nodwyd na all ehangu gan nad yw wedi cael hyd i gyllid yn dilyn y cynllun treialu.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'i bartneriaid i ddatblygu strategaeth fuddsoddi integredig ar gyfer yr ystad gofal sylfaenol, er nad yw'n buddsoddi glir mewn datblygiadau TGCh

- 58 Mae model perchnogaeth adeiladau gofal sylfaenol yn gymhleth. Mae rhai adeiladau wedi'u hadeiladu'n bwrpasol gan ddatblygwr masnachol a'u prydlesu yn ôl i'r GIG. Mae adeiladau eraill yn eiddo i feddygon teulu, sy'n derbyn ad-daliadau rhent cysyniadol gan y byrddau iechyd. Mae adeiladau eraill yn eiddo i'r byrddau iechyd sy'n prydlesu ystafelloedd i feddygon teulu. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn 2013 nad oedd yn cyllido datblygiadau ystadau gofal sylfaenol mwyach ac y byddant o hyn allan yn gyfrifoldeb y byrddau iechyd.
- 59 Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu datblygu strategaeth ystadau hirdymor yn ystod 2018-19 ar y cyd â'i bartneriaid lleol, er mwyn adeiladu ar y Strategaeth Iechyd a Gofal deng mlynedd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. Mae'n dymuno sicrhau'r defnydd gorau o'r amgylchedd adeiledig presennol a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu cyfleusterau pwrpasol cyfoes ar draws y sector cyhoeddus ym Mhowys. Byddant yn ystyried darpariaeth ehangach gwasanaethau'r sector cyhoeddus ac uchelgais pobl Powys yn y dyfodol. Y bwriad yw mynd cam ymhellach â hyn i ystyried canolfannau rhanbarthol gwledig gan ddarparu cyfleusterau sylfaenol, eilaidd a gofal cymdeithasol. Caiff rhwymedigaethau ariannol ac opsiynau ar gyfer gwneud hynny yn cael eu harchwilio ar y cyd â phartneriaid a Llywodraeth Cymru yn ystod 2018-19. Gallai hyn gynnwys y cynnig i ddatblygu Canolfan Ranbarthol Wledig pennu cyfeiriad yn y Drenewydd a Hyb Llesiant Cymunedol yn nwyrain Maesyfed.
- 60 Mae'r pwyntiau bwled isod yn crynhoi rhai o'r datblygiadau ystadau gofal sylfaenol diweddar yn ardal y bwrdd iechyd:
- cafwyd cymeradwyaeth achos busnes llawn gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 ar gyfer datblygiad newydd yn Ysbyty Cymunedol Llandrindod. Mae gwaith wedi dechrau ar y safle i ddatblygu ac ad-drefnu gwasanaethau clinigol er mwyn i gleifion gael eu trin yn nes at eu cartref.
  - mae gwaith datblygu cynllun a chwmpasu wedi dechrau i wella amgylchedd y gwasanaeth clinigol yn Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais. Bydd y cynllun yn hwyluso datblygiad amgylchedd gofal brys mewn cydweithrediad â meddygon teulu lleol, sy'n darparu'r gwasanaeth o leoliad anaddas mewn practisau meddygon teulu ar hyn o bryd.
  - gwnaeth y Bwrdd Iechyd gais am grant gwella ym mis Ionawr 2017 i wella cyfleusterau ym Mhractis Meddygol y Drenewydd. Roedd y cynnig wedi'i seilio ar yr angen i wella gallu'r practis i ddatblygu ar gyfer y dyfodol a darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau ar y safle. Mae buddion eraill a ragwelir yn cynnwys gwell cynllunio olyniaeth ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn yr ardal, oherwydd y posibilrwydd y bydd pobl newydd a gaiff eu recriwtio yn cael eu denu i weithio yn y practis.

- 61 Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gymorth i ddatblygu canolfannau iechyd a llesiant â gwerth cyfalaf o ryw £68 miliwn. Mae hwn yn ymrwymiad allweddol yn Symud Cymru Ymlaen. Mae byrddau iechyd yn bwriadu gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid cyflawni, gan gynnwys awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r trydydd sector, i dynnu ynghyd amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus i'r hybiau cymunedol. Roedd dau gynllun wedi'u cynnwys yn y fenter hon ym Mhowys:
- cyflwynodd y Bwrdd Iechyd amlinelliad o achos busnes ym mis Tachwedd 2017 i ddatblygu prosiect yn Ysbyty Cymunedol Machynlleth i alluogi gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau'r trydydd sector, mewn modd integredig ar safle'r ysbyty. Bydd y gwaith yn cynnwys darparu uned gofal lliniarol newydd hefyd.
  - bydd Canolfan Gofal Sylfaenol newydd yn Llanfair Caereinion yn disodli'r practis meddyg teulu presennol ac yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal erbyn 2020-21.
- 62 Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn pwysleisio pwysigrwydd systemau TGCh integredig ac effeithiol i gefnogi gwell defnydd o wybodaeth gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal sylfaenol. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn arwain y rhan fwyaf o ddatblygiadau TGCh sy'n ymwneud â gofal sylfaenol. Y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Powys oedd y cyntaf i gefnogi cyflwyniad System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ac mae rhagor o waith wedi'i gynllunio i gyflawni ei photensial mwyaf. Fodd bynnag, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu rhagor o dystiolaeth o'r hyn yr oedd yn ei wneud i sicrhau bod systemau TGCh gofal sylfaenol yn addas i'w diben, heblaw am gefnogi practisau i gynnal a chadw eu systemau.




**Gweithlu:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cysylltu'n rheolaidd â phractisau i fonitro cynaliadwyedd, fodd bynnag mae bylchau yn y data yn llesteirio'r gallu i gynllunio'r gweithlu a cheir rhwystrau i ddatblygiad pellach timau amlddisgyblaethol

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod bylchau mewn data staffio yn llesteirio ei ymdrechion i gynllunio'r gweithlu y bydd ei angen yn y dyfodol**

- 63 Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn nodi'r angen i ddatblygu gweithlu lleol medrus â niferoedd a'r cymysgedd cywir o sgiliau i ddiwallu anghenion pobl yn nes at adref. Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd fapio'r holl adnoddau clinigol, gweithlu, ariannol ac eraill.
- 64 Mae Cynllun Gweithlu Gofal Sylfaenol diwygiedig y Bwrdd Iechyd (Ebrill 2017) yn disgrifio camau i sicrhau, rheoli a chefnogi gweithlu gofal sylfaenol cynaliadwy wedi'i lywio gan anghenion y boblogaeth leol a gan egwyddorion gofal iechyd darbodus. Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol ym Mhowys, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen am ddull system gyfan wedi'i gynllunio.
- 65 Mae'r cynllun gweithlu yn adeiladu ar gamau a themâu a nodwyd yn rhan o weithdy Strategaeth Gweithlu Meddygol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2014 ac mae'n ymgorffori'r pum maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yng Nghynllun Gweithlu Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan.
- 66 Fodd bynnag, mae'r cynllun gweithlu yn cydnabod bod bylchau yn y data a'r wybodaeth am y gweithlu presennol. Mae'r cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig â'r cynllun gweithlu yn nodi'r angen i sefydlu llinell sylfaen trwy fapio niferoedd a chymysgedd sgiliau'r gweithlu gofal sylfaenol presennol, fesul clwstwr a fesul practis. Mae'n nodi'r angen i'r Adran Gofal Sylfaenol sefydlu perthynas waith â rheolwyr practisau i gyflawni hyn.
- 67 Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu rhoi dadansoddiad clir o ddata ynghylch staff ymarfer cyffredinol ac nid oedd ganddo unrhyw ddata ar niferoedd y gweithlu na'r cymysgedd sgiliau ym maes fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg gymunedol. Mae'n cydnabod yr angen am ragor o eglurdeb ynghylch y gwasanaethau hyn os yw am ddeall y math o weithlu sydd ei angen yn y tymor hir.
- 68 Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer uwch o feddygon teulu am bob 10,000 o'r boblogaeth (7.72) na chyfartaledd Cymru (6.19) (**Arddangosyn 7**). Fodd bynnag, mae nifer y partneriaethau meddygon teulu wedi parhau i fod yn gyson ar 17 rhwng

mis Medi 2014 ac adeg ein harchwiliad, ac mae canran y partneriaethau ag un partner yn unig (5.88%) ryw hanner o gyfartaledd (11%).

#### Arddangosyn 7: nifer y meddygon teulu am bob 10,000 o'r boblogaeth



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

69 Mae **Arddangosyn 8** yn dangos bod cyfran y meddygon teulu sy'n fenywod yn y Bwrdd Iechyd yn debyg i gyfartaledd Cymru, a bod cyfran y meddygon teulu sy'n 55 oed neu hŷn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

#### Arddangosyn 8: demograffeg meddygon teulu yn ôl oedran a rhyw

	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Cymru
• Dros 55 oed	26%	23%
• Benyw	54%	54%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 30 Medi 2017

70 Roedd gan y Bwrdd Iechyd 67 o gontractwyr Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn 2017, sy'n llai na'r 77 yn 2014. Cynyddwyd nifer yr optometryddion o 30 yn 2014 i 34 yn 2017.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd gysylltiad rheolaidd â phractisau i fonitro eu cynaliadwyedd ac nid oes unrhyw bractisau a reolir ar hyn o bryd

- 71 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen am wasanaethau meddygol cyffredinol cynaliadwy, o gofio'r heriau cenedlaethol sy'n ymwneud â'r galw cynyddol gan gleifion â chyflyrau mwy cymhleth, yn ogystal â materion recriwtio a chadw.
- 72 Mae gan lawer o fyrddau Iechyd Uned Cymorth Gofal Sylfaenol i ddarparu cymorth i bractisau a reolir yn uniongyrchol ac i sicrhau cynaliadwyedd parhaus practisau nad ydynt wedi eu rheoli'n uniongyrchol. Yr Adran Gofal Sylfaenol sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi 12 aelod o staff ar wahanol raddau i gefnogi practisau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn ogystal â gwasanaethau gofal sylfaenol deintyddol ac optometreg. Nid oes unrhyw bractisau a reolir ar hyn o bryd.
- 73 Mae'r Adran Gofal Sylfaenol wedi gweithio gyda Shropdoc<sup>14</sup> i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu ymgynghoriad meddygon ymgynghorol a brysbennu clinigol o bell. Mae gan Shropdoc hanes hefyd o weithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu a darparu gwasanaethau yn ystod oriau gwaith sy'n cysylltu eu gwasanaethau y tu allan i oriau yn effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar y berthynas honno trwy drafod sut y gall Shropdoc gefnogi ei waith i sicrhau cynaliadwyedd meddygon teulu lleol trwy helpu i ddod ag adnoddau ymarfer cyffredinol a thimau cymunedol ynghyd i gyflawni modelau gofal newydd. Ar adeg ein hadolygiad roedd materion hysbys sy'n amharu ar wasanaeth y tu allan i oriau Shropdoc ar hyn o bryd yn effeithio ar gyflymder y gwaith hwn.
- 74 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio'r fframwaith cynaliadwyedd meddygon teulu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>15</sup>. Trwy ddefnyddio'r fframwaith fel sail, datblygodd yr Adran Gofal Sylfaenol Becyn Cymorth Cynaliadwyedd y mae'n rhaid i bob practis ei gyflawni bob blwyddyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddefnyddio'r pecyn i sicrhau bod practisau yn parhau i fod yn hyfyw ac yn gynaliadwy.
- 75 Mae gan bob practis gynllun practis a gaiff ei asesu ddwywaith y flwyddyn. Cynigir cymorth targed uniongyrchol gan yr Adran Gofal Sylfaenol a thrwy gyflwyno cais am ragor o adnoddau gan y Panel Cynaliadwyedd<sup>16</sup> i unrhyw bractis a gaiff ei

<sup>14</sup> Mae Shropdoc yn ddarparwr annibynnol o wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau. Y mae ar gontract i ddarparu'r rhan fwyaf o wasanaethau y tu allan i oriau ym Mhowys.

<sup>15</sup> Grant Duncan, Llywodraeth Cymru, Fframwaith Asesu Cynaliadwyedd Meddygon Teulu 2017-18, 21 Ebrill 2017.

<sup>16</sup> Sefydlwyd y Panel Cynaliadwyedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar swyddogaethau a chyfrifoldebau Paneli Asesu Lleol, sy'n cynnwys:

- ystyried pob cais gan bractisau meddygon teulu am unrhyw gymorth yn unol ag asesiad y cytunwyd arno ar sail tystiolaeth;

werthuso i fod mewn perygl mawr. Mae'r Adran Gofal Sylfaenol yn ymweld â phob practis yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn a cheir dialog parhaus rhyngddynt ynghylch yr hyn sydd ei angen i helpu i atal risgiau cynaliadwyedd rhag gwaethygu.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau pwysig i weithredu timau amlbroffesiynol ond ceir rhwystrau i gynnydd pellach, gan gynnwys diffyg staff wedi'u hyfforddi a diffyg capasiti i reoli'r aelodau staff hyn

- 76 Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn datgan mai swyddogaeth meddygon teulu yn y dyfodol fydd darparu arweiniad cyffredinol i dimau amlbroffesiwn. Byddai'r timau hyn yn cynnwys fferyllwyr, therapyddion, optometryddion, parafeddygon, uwch nyrsys practisau ac eraill. Mae'r cynllun gweithlu cenedlaethol yn datgan bod yn rhaid i fyrddau iechyd nodi cyfleoedd i'r gweithwyr proffesiynol hyn wella mynediad trwy ddarparu pwynt cyswllt cyntaf i gleifion.
- 77 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi Timau Adnoddau Cymunedol amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol ar ganol darpariaeth gofal sylfaenol, er mwyn i bob Practis meddygon teulu allu darparu ymateb lleol cynhwysfawr a chydgyssylltiedig i anghenion iechyd a llesiant unigol. Gall arweinwyr practisau ddefnyddio amrywiaeth o opsiynau diagnostig, triniaeth a chymorth a ddarperir yn y gymuned neu leoliadau Ysbyty Cymunedol lleol. Mae'r dull system gyfan hwn yn cynnwys gofal sylfaenol, gofal aciwt, yr awdurdod lleol a'r trydydd sector i gydweithio i ymdrin ag anghenion cleifion mewn ffordd amlddisgyblaethol. Mae hyn yn ei dro yn helpu i atal atgyfeiriad a/neu dderbyn i leoliadau gofal eilaidd pellach i ffwrdd.
- 78 Bu nifer o ddatblygiadau sylweddol o ran cyflwyno dull amlddisgyblaethol. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno swydd cydymaith meddygol. Mae cymdeithion meddygol yn gweithio dan oruchwyliaeth uniongyrchol meddyg ac yn cynnal llawer o dasgau tebyg, gan gynnwys archwiliad, diagnosis a thriniaeth i'r claf. Mae wyth cydymaith meddygol wedi'u recriwtio, ac mae rhagor yn cael eu recriwtio i'r Bwrdd Iechyd (chwech o Brifysgol Birmingham a dau o Brifysgol Abertawe). Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd ar gamau cynnar perthynas â Phrifysgol Wolverhampton i ddenu rhai o'u myfyrwyr cydymaith meddygol i weithio ym Mhowys. Er bod gan GIG Cymru fframwaith llywodraethu ar gyfer cyflogi cymdeithion meddygol, nid ydynt wedi'u rheoleiddio'n llawn hyd yn hyn gan sefydliad fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae'n bwysig darparu goruchwyliaeth dda a gwerthuso'u heffaith yn barhaus.<sup>17</sup>

- ystyried a phenderfynu ar yr achos dros gefnogi unrhyw bractis o fewn chwe wythnos i dderbyn cais am asesu practis meddygon teulu a gwblhawyd; a
- rhoi gwybod i'r practis am y penderfyniad ar unrhyw gymorth i bractis;

<sup>17</sup> <http://www.gpone.wales.nhs.uk/opendoc/293958>

- 79 Mae gan Bractis y Drenewydd Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Ymarferydd Orthopedeg Arbenigol ar gyfer therapi Cyhyrsgerbydol. Ar adeg ein gwaith maes, roedd disgwyl i reolwr y practis gyflwyno buddion y gwasanaeth i Glwstwr gogledd Powys i weld a oedd gan unrhyw bractisau eraill ddiddordeb mewn defnyddio'r gwasanaeth hwn.
- 80 Mewn cydweithrediad â Shropdoc, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu cynllun Ymarferydd Gofal Brys<sup>18</sup> estynedig ar draws pedwar practis yng ngogledd Powys ac un yng nghanol Powys. Mae hefyd yn bwriadu cynyddu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer nyrsys mewn practisau, cynorthwyyr gofal iechyd a rheolwyr practisau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu annog myfyrwyr nyrsio i ystyried gofal sylfaenol fel gyrfa trwy greu cyfleoedd profiad gwaith ym Mhowys.
- 81 Fel y nodwyd yn flaenorol (gweler [paragraff 28](#)), mae gan y Bwrdd Iechyd lwybr glawcoma diwygiedig sy'n defnyddio optometryddion gofal sylfaenol i reoli gofal y tu allan i'r ysbyty, yn ogystal â pharhau i ddefnyddio gwasanaethau dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint gofal sylfaenol. Bydd hyn yn gwella mynediad at wasanaethau ac yn darparu mwy o wasanaethau gofal yn nes at gartrefi.
- 82 Mae'r cynllun tymor canolog integredig yn cyfeirio at gyfraniad cynyddol gwasanaethau a ddarperir gan bractisau gwasanaethau deintyddol cyffredinol. Er enghraifft, bydd defnyddio clinig deintyddol symudol yn gwella mynediad at wasanaethau ac yn darparu mwy o ofal yn nes at gartrefi.
- 83 Mae'r cynllun tymor canolog integredig hefyd yn rhagweld swyddogaeth gynyddol i wasanaethau fferylliaeth gymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei fenter cyfeirio i Dewis Fferyllfa er mwyn sicrhau y caiff mwy o gleifion eu cyfeirio i, neu'n manteisio ar wasanaethau a ddarperir gan fferyllwyr cymunedol.
- 84 Mae gwasanaeth ffisiotherapi aciwt ar gael am ddwy sesiwn yr wythnos mewn practis yn ne Powys. Mae'r gwasanaeth hwn yn ymdrin â 48% o gleifion a ddefnyddiodd y gwasanaeth hwn â chyngor. Byddai'r cysylltiadau cleifion hyn wedi arwain fel arall at ymgynghoriad meddygon teulu pe na byddai'r gwasanaeth ar gael.
- 85 Cynhelir brysbennu clinigol yn y rhan fwyaf o bractisau. Mae'r dull yn amrywio yn dibynnu ar adnoddau'r practis ac anghenion. Mae rhai practisau yn defnyddio'u staff uwch-ymarferydd nyrsio, ac mae rhai yn defnyddio ymarferwyr gofal heb ei drefnu i gynnal y brysbennu. Mae practisau eraill yn defnyddio cymdeithion meddygol. Mewn nifer llai o achosion, mae'r meddygon teulu eu hunain yn ei wneud. Yn yr achosion pan fo aelod o'r tîm ymarfer yn cynnal y brysbennu clinigol,

<sup>18</sup> Daw Ymarferwyr Gofal Brys (neu Ymarferwyr Gofal Mewn Argyfwng) o gefndir parafeddygaeth ar y cyfan ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt gymwysterau academaidd ychwanegol. Mae ganddynt sgiliau uwch mewn asesu meddygol a sgiliau clinigol ychwanegol y tu hwnt i'r rhai sydd gan barafeddygon safonol, nyrs gymwysiedig neu griw arall ar yr ambiwlans fel technegwyr.

mae'r doctor ar ddyletswydd yn gweithredu fel arweinydd tîm ac yn darparu cyngor ac yn cydgysylltu.

- 86 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi diffyg staff â sgiliau addas yn y rhan fwyaf o'r grwpiau a nodir uchod. Fodd bynnag, nid oes gan bob practis yr un anghenion ac efallai na fydd angen yr un adnoddau ar bob un. Cymhlethdod arall o ran model tîm amlbroffesiynol Powys yw nad oes gan bractisau y capasiti na'r cymhwysedd arweinyddiaeth bob amser i reoli gwahanol grwpiau o staff neu i sicrhau y diwellir eu hanghenion proffesiynol.

**Goruchwyliaeth:** Mae lle i gynyddu'r pwyslais ar ofal sylfaenol wrth fonitro perfformiad ac ym musnes y Bwrdd ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod angen iddo wella'i gymorth i glystyrau

**Mae arweinwyr wedi ymrwmo i drawsnewid gofal sylfaenol ond mae goruchwyliaeth wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar wasanaethau y tu allan i oriau yn hytrach nag ar ofal sylfaenol ehangach a datblygu clystyrau**

- 87 I drawsnewid gofal sylfaenol, mae angen trefniadau eglur ac effeithiol ar fyrddau iechyd ar gyfer goruchwyllo ac uwch-arweinyddiaeth. Mae gan is-gadeiryddion y bwrdd iechyd gyfrifoldeb penodol i hyrwyddo materion gofal sylfaenol. Yn y Bwrdd Iechyd canfuwyd bod gan yr Is-gadeirydd lawer o brofiad ac ymrwymiad cryf i gryfhau gofal sylfaenol a chymunedol. Mae'n cadeirio'r Grŵp Sicrwydd y Tu Allan i Oriau, sy'n gweithio gyda Shropdoc a phartneriaid eraill i helpu i ddatrys materion sydd wedi'u cofnodi'n dda a materion brys o ran gwasanaethau y tu allan i oriau a darparu sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr oedd angen llawer o fewnbwn rheolwyr i wneud hyn, a'i fod wedi tynnu'r sylw oddi ar flaenoriaethau eraill.
- 88 Canfuwyd ychydig o amrywio o ran trefniadau rhwng byrddau iechyd yn y cyfrifoldebau ar lefel y swyddogion gweithredol dros ofal sylfaenol. Yn y Bwrdd Iechyd, gadawodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio wedi symud yn y cyfnod interim i gyflawni swyddogaethau Cyfarwyddwr Gweithredol yr elfen Gymunedol ac Iechyd y swydd honno, a'r Prif Weithredwr sydd wedi derbyn cyfrifoldeb yr elfen gofal sylfaenol.
- 89 Fel y nodwyd yn flaenorol, (gweler **paragraff 43**) mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod na fu cymaint o bwyslais yn y cymorth i ddatblygu clystyrau ag y byddai wedi dymuno. Ymysg y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar y sefyllfa mae'r trefniadau

interim o ran swydd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl. Hefyd, yr angen i ganolbwyntio ar ddatrys problemau â gwasanaethau y tu allan i oriau gyda chymorth Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol. O 2019, bydd gofal sylfaenol yn dychwelyd i bortffolio y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl a bydd interim newydd yn cael ei benodi.

- 90 Er mwyn ysgogi trawsnewid a chefnogi prosesau cynllunio a rheoli gofal sylfaenol, mae angen digon o staff medrus yn nhimau gofal sylfaenol byrddau iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl ar gyfer cyflawni gweithredol, a chyfarwyddiaethau corfforaethol ar gyfer strategaeth a llywodraethu. Mae'r Adran Gofal Sylfaenol, sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, yn gweithio ar draws gofal sylfaenol a chymunedol erbyn hyn. Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol a'r Pennaeth Gofal Sylfaenol wedi bod yn gweithio'n agos gydag uwch reolwyr adnoddau dynol, cynllunio a pherfformiad a chyllid i gynyddu'r pwyslais ar agenda gofal sylfaenol a chymunedol.
- 91 Mae'r Bwrdd Iechyd yn sefydlu tîm pwrpasol ar gyfer y Rhaglen Gofal Sylfaenol yn ystod 2018-19. Mae'n cynnwys rheolwyr o'r Adran Gofal Sylfaenol ac mae wedi'i arwain gan Gyfarwyddwr Rhaglen (sef y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol) â'r nod o roi mwy o bwyslais ar ddatblygu a chyflawni gofal sylfaenol. Byddant yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:
- datblygu clystyrau;
  - cyflawni a chynaliadwyedd gofal sylfaenol;
  - datblygu gofal sylfaenol; a
  - gwella effeithlonrwydd.
- 92 Bydd gan y Rhaglen grŵp goruchwylio amlasiantaethol i ddarparu cyfeiriad strategol a threfniadau gwneud penderfyniadau lefel uchel ar gyfer Clystyrau. Yn ei dro, bydd clystyrau yn ceisio cyflawni'r Strategaeth Iechyd a Llesiant ar lefel leol trwy gynllunio ac integreiddio gwasanaethau yn well ar draws y llwybr cleifion.
- 93 Mae'r Pwyllgor Gweithredol wedi nodi y bydd yn parhau i gefnogi gwahaniad y Clystyrau Gofal Sylfaenol a'r Rhwydweithiau Meddygon Teulu (gweler [paragraff 22](#)) oherwydd ei fod yn egluro'n well eu swyddogaethau a'u dyletswyddau ac maent wedi'u lleoli'n gadarn o fewn dulliau cynllunio a chyflawni iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, yn hytrach nag o fewn swyddogaeth gofal sylfaenol yn unig.



## Ceir pwyslais prin ar ofal sylfaenol ar ddangosfwrdd perfformiad y Bwrdd Iechyd ac ym musnes y Bwrdd yn gyffredinol

- 94 Mae busnes y Bwrdd yn canolbwyntio'n bennaf ar y cynllun tymor canolig integredig a gofal eilaidd yn hytrach na gofal sylfaenol. Mae'r Bwrdd yn cael rhai diweddariadau ar broblemau o ran gwasanaethau y tu allan i oriau. Ac mae'r adroddiadau cynnydd chwarterol ar y cynllun tymor canolig integredig a gyflwynir i'r Bwrdd yn cynnwys adran ar drawsnewid gofal sylfaenol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bapurau'r Bwrdd ar ddatblygiadau a chynaliadwyedd practis gofal sylfaenol, nac ar glystyrau a rhwydweithiau meddygon teulu a chyflawniadau. Mae'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad a'r Bwrdd yn cael diweddariadau mewnol ar faterion practisau penodol. Fodd bynnag, ni chawsom weld unrhyw ddiweddariadau fel hyn ym mhapurau diweddar y pwyllgor.
- 95 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn adolygu Adroddiadau Perfformiad Integredig chwarterol a blynyddol am gynnydd o ran Fframwaith Perfformiad a Chanlyniadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r mesurau sy'n ymwneud â gofal sylfaenol yn cynnwys rhaglen imiwneiddio plant a brechiadau'r fflw, rhoi'r gorau i smygu, trefnu apwyntiadau meddygon teulu, gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, gofal deintyddol sylfaenol y GIG a dangosyddion rhagnodi. Fodd bynnag, prif bwyslais y fframwaith yw targedau gofal eilaidd. Yn ogystal â hyn, ni adroddir ar unrhyw ddangosyddion gofal sylfaenol amlwg ar y dangosfwrdd lefel uchel y mae'r Bwrdd yn ei weld.
- 96 Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl yn llunio adroddiad chwarterol am weithrediad y Bwrdd Iechyd o'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol, a gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad. Mae'r Adran Gofal Sylfaenol yn trafod cyfraddau derbyn i adrannau brys ar lefel clwstwr yn ôl arbenigedd â phob arweinydd y clwstwr. Canfuwyd bod cyfraddau derbyn i adrannau brys yn ddangosydd cywir a defnyddiol o berfformiad yn absenoldeb dangosyddion eraill y clwstwr.
- 97 Fel y nodwyd yn flaenorol (gweler [paragraff 64](#)), lluniodd y Pwyllgor Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol Gynllun Gweithlu Gofal Sylfaenol diwygiedig a chytunodd y Bwrdd arno ym mis Ebrill 2017. Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn crynodebau o Weithgarwch Cydbwyllgor a Phartneriaeth y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn. Cyfeirir rhywfaint at ddatblygiadau gofal sylfaenol o fewn cwmpas eang y papurau hyn.
- 98 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod yn monitro perfformiad gofal sylfaenol mewn nifer o fyrddau, gan gynnwys y Bwrdd Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu, y Bwrdd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio, Bwrdd y Gyfarwyddiaeth a'r Bwrdd Iechyd y Geg. Gallai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ymhellach ei allu i gynllunio a datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol newydd trwy ofyn am adroddiadau am berfformiad a chynnydd gan bractisau meddygon teulu, darparwyr cymunedol eraill a chlystyrau. Fodd bynnag, ni ddarperir y fath wybodaeth ar hyn o bryd.



## Meddygon teulu sy'n arwain y rhan fwyaf o'r clystyrau a'r rhwydweithiau a cheir tystiolaeth gymysg ynghylch y cymorth a roddir i glystyrau gan y Bwrdd Iechyd

- 99 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried clystyrau yn ffordd o gyflawni ymreolaeth leol ar gyfer arweinyddiaeth, cydweithredu ac arloesi. Fodd bynnag, canfu ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'r clystyrau safbwyntiau cymysg o ran a oedd angen arwain clystyrau yn fwy effeithiol. Canfu'r ymchwiliad hefyd dystiolaeth o ddibyniaeth ar nifer bach o unigolion i gynnal clystyrau.
- 100 Mae **Arddangosyn 9** yn nodi cefndir proffesiynol arweinwyr y clystyrau ledled Cymru. Yn y Bwrdd Iechyd<sup>19</sup>, mae dau o'r tri arweinydd clwstwr yn feddygon teulu. Mae'r arweinydd clwstwr arall yn ymarferydd nyrsio sydd hefyd yn bartner mewn practis.

### Arddangosyn 9: cefndir proffesiynol arweinwyr y clystyrau

Mae'r tabl hwn yn darparu nifer yr arweinwyr clystyrau sy'n feddygon teulu a nifer yr arweinwyr clystyrau sy'n weithwyr proffesiynol eraill ym mhob Bwrdd Iechyd

	Nifer yr arweinwyr clystyrau: Meddygon Teulu	Nifer yr arweinwyr clystyrau: gweithwyr proffesiynol eraill	Cyfanswm y clystyrau
Abertawe Bro Morgannwg	11	0	11
Aneurin Bevan	9	3	12
Betsi Cadwaladr	12	2	14
Cwm Taf	5	6	8
Caerdydd a'r Fro	9	0	9
Hywel Dda	6	1	7
Powys	2	1	3
Cymru	54	13	64

Sylwer: Cyfanswm yr arweinwyr clystyrau yw 67 oherwydd darparodd Cwm Taf fanylion cyswllt mwy nag un arweinydd ar gyfer pob clwstwr.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ffurflenni Hunanasesu Byrddau Iechyd


- 101 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod cyflawniad lleol Model Gofal Sylfaenol Cymru yn dibynnu ar arweinyddiaeth effeithiol, ymgysylltu proffesiynol, ymglymiad y gymuned a gweithlu sydd wedi ymrwmo i ffyrdd newydd o weithio. Bydd rhagor o fuddsoddiad mewn datblygu arweinyddiaeth yn y clystyrau a'r rhwydweithiau yn hollbwysig i gyflawniad eu cynlluniau i drawsnewid gofal sylfaenol.
- 102 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, trwy'r Hyb Gofal Sylfaenol, wedi datblygu Rhaglen Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus, ac mae 40 o arweinwyr clwstwr wedi manteisio ar y rhaglen. Mae'r arweinwyr clwstwr yn parhau i rannu a dysgu oddi wrth ei gilydd trwy gymuned o arfer. Canfu ein harolwg o arweinwyr clystyrau/rhwydweithiau nad oedd unrhyw un wedi bod ar y rhaglen.
- 103 Dywedodd dau o'r tri arweinydd clwstwr/rhwydwaith wrthym fod y Bwrdd Iechyd wedi'u cefnogi'n effeithiol. Cytunodd yr un nifer â'r datganiad bod ganddynt ddigon o amser yn ystod y dydd i ganolbwyntio ar ddatblygu'r clwstwr. Fodd bynnag, nododd tystiolaeth mewn adroddiad archwilio mewnol diweddar (gweler [paragraff 42](#)) nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi darparu cymorth effeithiol i arweinwyr clystyrau.

**Perfformiad:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd graddol wrth gyflawni ei gynlluniau ond mae perfformiad gofal sylfaenol yn gymysg ac mae nifer o heriau anodd yn parhau

**Mae perfformiad gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn gymysg o'i gymharu â chyfartaledd Cymru**

- 104 Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn crynhoi perfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â Mesurau Perfformiad a Chanlyniadau Llywodraeth Cymru.
- 105 Mae **Arddangosyn 10**<sup>20</sup> yn dangos er bod y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y targed ar gyfer brechiadau '5 mewn 1', nid yw'n cyrraedd y targed ar gyfer brechiadau MMR.

**Arddangosyn 10: cyfraddau imiwneiddio plant ar gyfer y chwarter o fis Ionawr i fis Mawrth 2018**



Sylwer: mae'r brechlyn '5 mewn 1' yn amddiffyn rhag diffttheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio a haint Hib. Mae'r MMR yn amddiffyn rhag heintiau y frech goch, clwy'r pennau a rwbela.


<sup>20</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=54124>

Mae'r canlyniadau hyn ar gyfer plant sy'n byw yn ardal y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2018 ac a gafodd eu pumed pen-blwydd yn ystod y chwarter o 1 Ionawr hyd 31 Mawrth 2018.

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

106 Ar gyfer oedolion, argymhellir brechiadau fflw i bobl 65 oed neu hŷn, yn ogystal â phobl â ffactorau risg eraill fel asthma. Y targed ar gyfer y ddau grŵp yw bod 75% o'r poblogaethau hynny yn cael y brechiad bob blwyddyn. Mae **Arddangosyn 11** yn dangos bod cyfradd brechiadau fflw y Bwrdd Iechyd ymhlith cleifion 65 oed neu hŷn yn is na chyfradd Cymru gyfan ac nad yw wedi newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod cyfair o bedair blynedd, ac erioed wedi cyrraedd y targed <sup>21</sup>.

**Arddangosyn 11: tueddiadau yn nifer y bobl sy'n cael y brechiad fflw o 2014-15 i 2017-18: Nifer y cleifion 65 oed neu hŷn**




Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru.

<sup>21</sup>

[http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/CommunitySurveillanceDocs.nsf/\(\\$All\)/AC9851271F3475FD80258160004CF724/\\$File/Seasonal%20influenza%20in%20Wales%20201617\\_v1a.pdf](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/CommunitySurveillanceDocs.nsf/($All)/AC9851271F3475FD80258160004CF724/$File/Seasonal%20influenza%20in%20Wales%20201617_v1a.pdf)

107 Mae **Arddangosyn 12** yn dangos cyfradd y brechiadau fflw ar gyfer pobl sy'n iau na 65 oed sydd â risg o'r fflw. Y targed ar gyfer imiwneiddio rhag y fflw yw 75% ar gyfer y grŵp hwn o bobl. Mae'r siart yn dangos yn glir bod pob bwrdd iechyd yn perfformio ar gyfradd sy'n parhau i fod yn sylweddol is na hynny, ac ni chyrhaeddodd yr un ohonynt y gyfradd darged. Mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n is na chyfartaledd Cymru, ar gyfradd sydd wedi parhau yn gyson ar y cyfan ers pedair blynedd.


Arddangosyn 12: tueddiadau yn nifer y bobl sy'n cael y brechiad fflw o 2014-15 i 2017-18: Nifer y cleifion sy'n iau na 65 oed sydd â risg



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru.

108 Mae **Arddangosyn 13** yn dangos mai canran y practisau meddygon teulu a arhosodd ar agor trwy'r dydd<sup>22</sup> yn 2017 oedd 53%. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 51%.

**Arddangosyn 13: canran yr practisau sydd ar agor am 100% neu fwy o'u horiau craidd wythnosol, fesul Bwrdd Iechyd, 2017**




Sylwer: Cyfanswm yr oriau craidd wythnosol yw 52 awr a 30 munud.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

<sup>22</sup> **Diffiniad:** Practisau sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 08:00 a 18:30 bob dydd, heb gau amser cinio (fel y nodir yn y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol).

109 Mae **Arddangosyn 14** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn perfformio ychydig yn waeth na chyfartaledd Cymru yn y rhan fwyaf o fesurau sy'n ymwneud â darpariaeth apwyntiadau meddygon teulu ar wahanol amserau'r dydd.

**Arddangosyn 14: amserau apwyntiadau estynedig mewn practisau meddygon teulu**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

110 Ceir targed i leihau'r defnydd o gyffuriau lladd poen fel ibuprofen, a elwir yn gyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd i leihau'r risg o gymhlethdodau. Mae **Arddangosyn 15** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gostyngiad o 15.3% yn y lefelau rhagnodi yn y 12 mis blaenorol a bod hyn yn cyrraedd y targed bellach. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn well na chyfartaledd Cymru.

**Arddangosyn 15: lefelau rhagnodi cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd mewn gofal sylfaenol, chwarter un 2016-17 a 2017-18**

Lefelau rhagnodi ar gyfartaledd dyddiol am bob 1,000 o STAR-PU (uned presgripsiynu grŵp therapiwtig penodol cysylltiedig ag oedran-rhyw).




Targed = <1,330

Ffynhonnell: [Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru](#)



111 Mae **Arddangosyn 16** yn dangos canran y boblogaeth a ddefnyddiodd ofal deintyddol sylfaenol y GIG yn rheolaidd yn ystod y 24 mis blaenorol ar 30 Medi. Y targed yw gwella'n flynyddol, ac nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni hyn.

**Arddangosyn 16: canran y cleifion a gafodd triniaeth mewn practis deintyddol y GIG yn ystod y 24 mis blaenorol**



Targed = gwelliant blynyddol

Ffynhonnell: Ffurflenni gweithgarwch deintyddol, Llywodraeth Cymru

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi cynnydd graddol wrth gyflawni ei gynlluniau gofal sylfaenol a chymunedol ond mae'n cydnabod bod nifer o heriau anodd yn parhau

- 112 Yn haf 2017, cafodd Pwyllgor Gweithredol y Bwrdd Iechyd adroddiad a sgôr RAG<sup>23</sup> gan yr Adran Gofal Sylfaenol ar gynnydd y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol. Nododd yr adroddiad naw maes â sgôr goch a chytunwyd y byddai angen gwneud rhagor o waith i symud i sgôr ambr neu uwch. Mewn diweddariad i'r adroddiad cynnydd a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2018, nid oedd gan yr un o'r naw maes sgôr goch mwyach. Mewn pum achos, roedd hyn o ganlyniad i waith ychwanegol a wnaed. Yn y pedwar achos arall, roedd rhagor o dystiolaeth o gamau gweithredu a gymerwyd eisoes.
- 113 Mae'r Adran Gofal Sylfaenol hefyd yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd o ran cyflawni ei rhaglen waith. Hefyd, adroddodd yn ddiweddar ar ei gynnydd o ran camau gweithredu penodol y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyderus ei fod wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu a nodwyd ynddo. Mae **Arddangosyn 17** yn crynhoi graddau'r cynnydd erbyn mis Mawrth 2018 trwy ddefnyddio'r statws RAG a gafwyd gan y Bwrdd Iechyd. Mae'r sgorau coch yn ymwneud â diffyg cynnydd wrth rannu'r defnydd o systemau TG ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i rannu gwybodaeth a fydd yn cefnogi gofal sylfaenol; diffyg cysondeb wrth gysylltu buddsoddiad ag anghenion lleol i fynd i'r afael â'r ddeddf gofal gwrthgyfartal<sup>24</sup>.

### Arddangosyn 17: cynnydd o ran y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol ym mis Mawrth 2018

Meysydd blaenoriaeth cenedlaethol	Cynnydd o ran camau lleol
Cynllunio gofal yn lleol	2 wyrdd 4 ambr
Gwella mynediad a chydraddoldeb	6 gwyrdd 2 ambr 1 coch
Mynediad teg	1 gwyrdd 1 coch
Gweithlu lleol medrus	1 gwyrdd
Arweinyddiaeth gref	1 ambr

<sup>23</sup> Sgôr RAG – gwerthusiad wedi'i seilio ar ddull goleuadau traffig coch, ambr a gwyrdd.

<sup>24</sup> Awgrymwyd y ddeddf gofal gwrthgyfartal yn wreiddiol gan Julian Tudor Hart mewn papur i The Lancet, i ddisgrifio perthynas wrthynysig rhwng yr angen am ofal iechyd a'i ddefnydd gwirionedd, h.y. y rhai hynny y mae angen gofal meddygol arnynt fwyaf yw'r lleiaf tebygol o'i gael. I'r gwrthwyneb, mae tuedd i'r rhai hynny â'r lleiaf o angen am ofal iechyd ddefnyddio gwasanaethau iechyd yn fwy (ac yn fwy effeithiol).

Ffynhonnell: Ein cynllun ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru:  
Diweddariad ar gynnydd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

- 114 Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd beth oedd y prif rwystrau i drawsnewid gofal sylfaenol. Mae **Arddangosyn 18** yn dangos bod yr Is-adran wedi nodi'r angen i ddatblygu arweinyddiaeth feddygol a chynyddu capasiti rheolwyr a gweithlu gofal sylfaenol, yn ogystal â'r angen i ddod o hyd i ysgogiadau i symud adnoddau i ffwrdd o ofal eilaidd.

**Arddangosyn 18: barn yr Is-adran ar y prif rwystrau i drawsnewid gofal sylfaenol**

Rhwystrau	Yr hyn y mae angen ei wneud i ddileu'r rhwystrau
Capasiti arweinyddiaeth feddygol	Datblygu trwy gynlluniau clwstr
Capasiti rheoli	Cynyddu adnoddau i gynyddu capasiti
Capasiti'r gweithlu gofal sylfaenol	Cynyddu adnoddau i gynyddu capasiti
Agwedd a phwyslais gwasanaethau aciwt	Llunio ysgogiadau system i gefnogi trefniadau symud adnoddau i ffwrdd o ofal eilaidd

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ffurflenni Hunanasesu Byrddau Iechyd

- 115 Gofynnwyd am farn arweinwyr y clystyrau/rhwydweithiau ar lwyddiannau clystyrau/rhwydweithiau a'r prif heriau i ofal sylfaenol yn eu hardal. Mae **Arddangosyn 19** yn dangos bod brysbennu nyrsys a datblygu timau fferylliaeth gymunedol wedi'u cynnwys ymysg y llwyddiannau.

**Arddangosyn 19: arolwg o arweinwyr clwstr: llwyddiannau**

Llwyddiannau
Brysbennu nyrsys
Wardiau Rhithwir
Tîm fferylliaeth y clwstr
Cynorthwyr meddygol
Partneriaeth fonitro weithredol â MIND
Red Kite Health Solutions

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o arweinwyr clystyrau, Ebrill 2018

116 Mae **Arddangosyn 20** yn dangos y cododd arweinwyr clystyrau'r Bwrdd Iechyd nifer o heriau ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol, ac mae rhai ohonynt wedi'u nodi mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn:

**Arddangosyn 20: arolwg arweinwyr clystyrau: heriau**

<b>Heriau</b>
Mynediad at wasanaethau
Costau staffio cynyddol
Cynaliadwyedd practisau
Gwasanaethau y tu allan i oriau
Yr elfen wledig sy'n arwain at ofal sylfaenol yn darparu gofal eilaidd heb gydnabyddiaeth
Galw cynyddol gan gleifion

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o arweinwyr clystyrau, Ebrill 2018

# Atodiad 1

## Dulliau

### Arddangosyn 21: dulliau

Dull	Manylion
Hunanasesiad y Bwrdd Iechyd	Yr hunanasesiad oedd y prif ffynhonnell o ddata ar lefel gorfforaethol y gofynnwyd amdano gan y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2018. Roedd yr offer hwn hefyd yn cynnwys cais am ddogfen.
Arolwg o arweinwyr clystyrau	Anfonwyd arolwg ar-lein i'r holl arweinwyr clystyrau yng Nghymru ym mis Ebrill 2018. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 63 (45/67)%. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddau arweinydd Clwstwr Gofal Sylfaenol, dau arweinydd rhwydwaith meddygon teulu ac un sy'n arweinydd clwstwr a rhwydwaith ei ardal. Y gyfradd ymateb ar gyfer y Bwrdd Iechyd oedd 60% (tri ymatebydd o'r pump y cysylltwyd â nhw).
Cyfweliadau	Cyfwelwyd â nifer o aelodau staff, gan gynnwys y canlynol sy'n gyfrifol am ofal sylfaenol: <ul style="list-style-type: none"><li>• Is-gadeirydd</li><li>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n gyfrifol am ofal sylfaenol</li><li>• Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro</li><li>• Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol</li><li>• Arweinydd Cyllid</li><li>• Arweinydd Gweithlu</li><li>• Arweinydd Cynllunio a Pherfformiad</li><li>• Rheolwyr Gweithredu</li><li>• Cynrychiolydd y Cyngor Iechyd Cymunedol</li></ul>
Adolygwyd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd	Adolygwyd cynllun tymor canolig y Bwrdd Iechyd i asesu faint o ystyriaeth a roddir i ofal sylfaenol.

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr

Arddangosyn 22: ymateb y rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A1a	Adolygu aeddfedwydd cymharol Clystyrau, i ddatblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gymorth pan fo angen.	Cryfhau a thargedu cymorth datblygu Clystyrau.	Ydy	Ydy	Bydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn: <ul style="list-style-type: none"><li>• Adolygu Clystyrau o'u cymharu â'r Metrigau Aeddfedwydd</li><li>• Llunio Cynllun Datblygu Clystyrau</li><li>• Gweithredu'r rhaglen Datblygu Gofal Sylfaenol a Chymunedol</li></ul>	31 Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A1b	Sicrhau y darperir cyfleoedd datblygu sgiliau arweinyddiaeth i arweinwyr Clystyrau pan fo angen.	Cryfhau arweinyddiaeth Clystyrau.	Nac ydy	Ydy	Darperir cymorth ffurfiol i ddatblygu arweinyddiaeth pan welir bod diffyg sgiliau a phrofiad. Caiff arweinwyr clystyrau eu hannog i fynd ar y cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus.	Amherthnasol	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A2a	Cyfrifo llinell sylfaen ar gyfer ei buddsoddiad a'i ddefnydd adnoddau presennol mewn gofal sylfaenol a chymunedol.	Sefydlu llinell sylfaen i'w defnyddio i fesur symudiad adnoddau tuag at ofal sylfaenol.	Ydy	Ydy	Mae gwybodaeth sylfaenol am gostau a ysgwyddwyd (ac felly adnoddau a ymrwymwyd) ar gael trwy'r cyfrifon blynyddol a'r ffurflenni costau. Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu hyn i sicrhau crynodeb o'r sefyllfa sylfaenol i'w defnyddio i fonitro wrth symud ymlaen.	Crynodeb Sylfaenol i'w gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2018	Cyfarwyddwr Cyllid / Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid



Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A2b	Adolygu ac adrodd, o leiaf unwaith y flwyddyn, ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol, i asesu cynnydd ers y llinell sylfaen a monitro i ba raddau mae'n llwyddo symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol.	Deall y cynnydd a wnaed o ran symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol.	Ydy	Ydy	Adroddir buddsoddiadau penodol sy'n cysylltu â dyraniadau cyllid penodol.  Bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu dull o adrodd newidiadau mewn gwariant o'u cymharu â'r llinell sylfaen yn yr un modd ag A2a.	Adrodd symudiadau rhwng 2018/19 a 2019/20 ar ôl cwblhau'r cyfrifon blyneddol.	Cyfarwyddwr Cyllid/ Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A3	Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer codi proffil gofal sylfaenol yn y Bwrdd Iechyd. Gallai camau gweithredu gynnwys sicrhau bod gofal sylfaenol yn eitem sefydlog ar agendâu'r Bwrdd a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar ofal sylfaenol.	Gwella dealltwriaeth y Bwrdd o berfformiad gofal sylfaenol.	Ydy	Ydy	Bydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>Llunio Adroddiad Blynyddol ar Ofal Sylfaenol er mwyn i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd ei ystyried.</li> </ul> Bydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys hefyd yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu Dangosfwrdd o Berfformiad Gofal Sylfaenol a fydd yn darparu diweddariad ffurfiol i'r bwrdd a'r pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch yn rheolaidd, amllder i'w gytuno.</li> </ul>	31 Mai 2019  31 Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A4a	Adolygu cynnwys adroddiadau perfformiad y Bwrdd a'r pwyllgorau i sicrhau y rhoddir digon o sylw i ofal sylfaenol.	Gwella dealltwriaeth y Bwrdd o berfformiad gofal sylfaenol.	Ydy	Ydy	Datblygu dull ffurfiol o adrodd yn unol â Fframwaith Sicrwydd Comisiynu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i sicrhau bod y Bwrdd yn cael sicrwydd am berfformiad, ansawdd ac effeithlonrwydd gofal sylfaenol.	Bydd gwaith ar hyn yn dechrau ym mis Tachwedd 2018, fodd bynnag bydd yn cymryd llawer iawn o amser i'w weithredu a'i fonitro'n llawn.	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A4b	Cynyddu amllder yr adroddiadau perfformiad i'r Bwrdd a'r pwyllgorau am ofal sylfaenol.	Gwella dealltwriaeth y Bwrdd o berfformiad gofal sylfaenol.	Ydy	Ydy	Trwy'r broses Fframwaith Sicrwydd Comisiynu, bydd adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno yn rhan o'r broses sicrwydd i'r pwyllgor perthnasol. Amllder i'w gytuno yn yr un modd ag A3 uchod.	Bydd gwaith ar hyn yn dechrau ym mis Tachwedd 2018, fodd bynnag bydd yn cymryd llawer iawn o amser i'w weithredu a'i fonitro'n llawn.	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A4c	Sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu digon o sylw ar gynnydd a chyflawni cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd, ac i ba raddau y mae'r cynlluniau hynny yn arwain at well profiadau a chanlyniadau ar gyfer cleifion.	Codi ymwybyddiaeth y Bwrdd o effaith trawsnewid gofal sylfaenol ar gleifion.	Ydy	Ydy	Trwy broses adrodd y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu, bydd y categorïau asesu yn cynnwys Mynediad, Cyllid, Ansawdd a Diogelwch, a Phrofiad y Claf. Hefyd, caiff adroddiadau rheolaidd eu cyflwyno ar drawsnewid gofal sylfaenol yn unol ag amcan y cynllun tymor canolig integredig: Cynyddu gweithrediad pob elfen o fodel gofal sylfaenol Cymru, i gyflawni tegwch ar draws pob contractwr annibynnol.	30 Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A5	Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a rhoi ar waith gynllun gweithredu i sicrhau bod ganddo wybodaeth reolaidd, gynhwysfawr a safonol am nifer a sgiliau staff o bob proffesiwn sy'n gweithio mewn sefydliadau gofal sylfaenol.	I fod â dealltwriaeth fwy eglur o'r gweithlu gofal sylfaenol cyfan. a fydd yn sail i waith cynllunio gweithlu presennol ac yn y dyfodol.	Ydy	Ydy	Mae gwaith wedi dechrau i greu data cynhwysfawr a fydd yn darparu gwybodaeth am nifer a sgiliau staff ac yn llywio anghenion y gweithlu yn y dyfodol o ran y pedwar gwasanaeth contractwyr ym maes gofal sylfaenol.	31 Gorffennaf 2019	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl



Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)